


Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 532 • Mehefin 2022 • 50c

CARNIFAL BETHESDA

GWELER TUDALEN 5



22

14



Yn y rhifyn hwn:

- Llety'r Adar – Hanes Yr Enw **t8**
- Côr y Penrhyn **t10**
- Gwarchod Enwau Lleoedd Cymraeg – Galw Am Ddeddfwriaeth **t14**

27



Llais Ogwan

Rhif 532

Mehefin 2022

Panel Golygyddol

Ieuan Wyn

(Ffôn 600297)

ieuanwyn01@gmail.com

Lowri Roberts

(Ffôn 07815 093955)

l.roberts11@btinternet.com

Neville Hughes

(Ffôn 600853)

nev_hughes@btinternet.com

Dewi A Morgan

(Ffôn 602440)

dewimorgan@live.co.uk

Trystan Pritchard

(Ffôn 07402 373444)

trystanrp1@gmail.com

Walter a Menai Williams

(Ffôn 601167)

waltermenai@yahoo.co.uk

Rhodri Llŷr Evans

(Ffôn 07713 865452)

Rhodri.llyr.evans@gmail.com

Owain Evans

(Ffôn 07588 636259)

owain.evans1@gmail.com

Carwyn Meredydd

(Ffôn 07867 536102)

carwynian@hotmail.com

Rhys Llwyd

(Ffôn 01248 601606) rml42@live.co.uk

Dilwyn Pritchard

(Ffôn 01248 601880)

d.pritchard@btinternet.com

Swyddogion

CADEIRYDD

Dewi A Morgan, Park Villa,

Lôn Newydd Coetmor,

Bethesda, Gwynedd

LL57 3DT (Ffôn 602440)

dewimorgan@live.co.uk

TREFNYDD HYSBYSEBION

Neville Hughes, 14 Pant,

Bethesda LL57 3PA (Ffôn 600853)

nev_hughes@btinternet.com

YSGRIFENNYDD

Gareth Llwyd, Talgarnedd,

3 Sgwâr Buddug, Bethesda

LL57 3AH (Ffôn 601415)

garethllwyd197@btinternet.com

TRYSORYDD

Godfrey Northam, 4 Llwyn

Bedw, Rachub, Llanllechid

LL57 3EZ (Ffôn 600872)

godfreydnortham@hotmail.co.uk

Y Llais drwy'r post:

Owen G Jones, 1 Erw Las,

Bethesda, Gwynedd

LL57 3NN (Ffôn 600184)

post@llaisogwan.com

Golygydd y Mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan

Dewi A. Morgan.

Y golygydd ym mis **Gorffennaf** fydd

Carwyn Meredydd,

4 Rhes Gordon, Bethesda,

Gwynedd LL57 3NR.

07867 536102

carwynian@hotmail.com

Pob deunydd i law erbyn **dydd Sadwrn,**

25 Mehefin os gwelwch yn dda.

Casglu a dosbarthu

Nos Iau, 14 Gorffennaf

ying Nghanolfan Cefnfaes am 6.45

DALIER SYLW: NID OES GWARANT

Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD

YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD

CAU YN CAEL EI GYNNWYS.

CLWB CYFEILLION

Gwobrau Mehefin

£30.00 – (177)

Selwyn Jones, Bron Arfon, Rachub.

£20.00 – (57)

Janet Davies, Ffordd Abercaseg, Bethesda.

£10.00 – (162)

Linda Brown, Gerlan.

£5.00 – (85)

Fflur Roberts, Garneddwen, Bethesda.

Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â swyddfa

Cymdeithas Deillion Gogledd Cymru,

Bangor (01248 353604).

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth

â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r

Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r

canlynol:

Gareth Llwyd – 601415

Neville Hughes – 600853

Archebu trwy'r post

Gwledydd Prydain – £22

Ewrop – £30

Gweddill y Byd – £40

Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda,

Gwynedd LL57 3NN

post@llaisogwan.com

01248 600184

Rhoddion i'r Llais

£20.00 Er cof am Desmond Davies,

30 Bryntirion, a fu farw ar 5 Mai

1982, gan Nen a'r hogia'. Michael,

Martin a Peter.

£14.50 Alan Williams, Blaen y Cae.

£10.00 Er cof am Mrs. Mary Thomas, 22

Maes Ogwen, Tregarth, a fu farw

4 Mehefin 1978 yn 60 oed. Oddi

wrth Llewela, John Llewelyn a'r

plant, Mathew, Lowri a Catrin.

£6.50 Carys, Rhos y Coed, Bethesda.

£1.50 Gavin, Rhos y Coed, Bethesda.

£5.00 Fflur Roberts, Garneddwen,

Bethesda

Diolch yn fawr

Cyngor Cymuned Llanllechid

Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol a misol y Cyngor ar y 12fed o Fai yng Nghanolfan Cefnfaes ac yn rhithiol drwy gyfrwng Zoom.

Yn dilyn hysbysiad rhoddion y Cyngor, nodwyd fod llawer o fudiadau lleol wedi derbyn rhodd. Dyma restr o'r mudiadau oedd yn llwyddiannus:

Llais Ogwan	£100.00
Theatr Bara Caws	£50.00
Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd	£50.00
Clwb Criced a Bowlio Bethesda	£50.00
Ambiwllans Awyr Cymru	£300.00
Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen	£50.00
Marie Curie	£150.00
Nant Ffrancon Brownies	£50.00
Ogwen 360 (Golwg)	£150.00
Ogwen Di-blastig (Dyffryn Gwyrdd)	£50.00

Cawsom noson lwyddiannus iawn yn y noson galw i mewn yn y Ffestri, Talybont ar y 4ydd Ebrill. Roedd yn amlwg nad yw'r trefniadau presennol ar gyfer torri gwair y cae yn addas, ac felly byddwn yn gweithio ar ddatrysiaid i'r broblem hon ar unwaith. Bydd yr awgrymiadau eraill a godwyd yn cael eu hystyried yn ofalus iawn a byddem yn ymgynghori â'r gymuned leol eto yn y dyfodol i drafod y camau nesaf. Hoffai'r Cyngor ddiolch i bawb wnaeth fynychu ac am eu hadborth ar y cynlluniau arfaethedig y cae pêl droed.

Cafwyd lawer o drafodaeth am brosiect Tirwedd y Carneddau a nodwyd y pwysigrwydd o gynnwys y Cyngor a ffermwyr y Carneddau mewn unrhyw drafodaethau yn y dyfodol. Nodwyd bydd cynrychiolaeth o'r Cyngor yn cyfarfod gyda Chadeirydd y prosiect yn fuan iawn.

Yn dilyn yr etholiad ar y 5ed o Fai, nodwyd fod un sedd wag – Ward Llanllechid Isaf. Os oes gennych chi unrhyw ddi-ddordeb yn y sedd wag, yna cysylltwch â'r Clerc drwy e-bost cyngorllanllechid@ogwen.org.

Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru

CYMRAG

Pentir

Cynrig a Carys Hughes,
Rallt Uchaf, Pentir, LL57 4YB
(01248 601318) carys16@hotmail.com

Profedigaeth

Rydym yn cydymdeimlo gyda Wyn James a theulu Bryn Meddyg ar gollu chwaer Wyn yn ddiweddar.

Ras Hwyl Pentir

Bydd y ras hwyl flynyddol yn ail gychwyn ar ôl bwllch o ddwy flynedd oherwydd effaith Covid-19. Bydd y ras yn cychwyn o Sgwâr Pentir ar 5ed Gorffennaf.

NEWYDDION EGLWYS ST. CEDOL, PENTIR Llawdriniaeth

Yn ystod y mis diwethaf derbyniodd Ann Illsley, Pen y Cefn, Pentir lawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Da ydi deall fod Ann wedi gwella a braf oedd ei gweld yn ôl yn ein mysg ar fore Sul.

Te Bach

Prynhawn Mercher 4ydd o Fai cynhaliwyd ein hail Te Bach misol. Roedd yn brynhawn llwyddiannus a hwyliog, enillwyd y raffl gan Brian, sef bocs o siocled a'r ail wobwr, sef 'Tea for One', gan Sharon. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Bydd y Te Bach yn cael ei gynnal ar brynhawn Mercher, cyntaf o'r mis am 2 o'r cloch y prynhawn a bydd y Te Bach nesaf ar y 6ed o Orffennaf. Mae croeso cynnes i chwi ymuno gyda ni am banad a theisen.

Gwasanaethau

Mae gwasanaethau bob bore Sul am 9.30yb, mae croeso cynnes i bawb ymuno yn y gwasanaethau, gyda phanad a sgwrs i ddilyn.

Manylion cyswllt

Os am drefnu priodas neu fedydd neu unrhyw fater arall yn ymwneud â'r eglwys cysylltwch gyda'r Deon Bro, Y Parchg Ganon Tracy Jones, tracyjones@churcheinwales.org.uk neu 01248 361876, cofiwch fod Nia (Warden) 07719918686 yna i chi os am unrhyw wybodaeth neu cael sgwrs.

Annwyl Olygydd,

Yn dilyn darllen cyfraniad diddorol Dr. John Elwyn Hughes yn rhifyn Mai o 'Llais Ogwan' dyma finnu'n dechra hel atgofion.

Wedi byw a'm magu yn Nhŷ Ysgol Glanogwen, ac o fewn dau daflad carreg i'r garej y mae Elwyn yn cyfeirio ati, roeddwn yn hen gyfarwydd â'r un garej fel garej Wil, garej Wil Llannerchymedd, neu garej Douglas.

Fe gofiau mai un o freintiau cyntaf fy mywyd, a minnau mae'n debyg tuag wyth neu naw oed, oedd cael mynd i offis garej Mr. Wil Evans i'w 'helpu' ar fore Sadwrn. Fy swydd bwysig oedd stampio 'coupons' petrol, a oedd o bosibl (er na allaf fod yn berffaith siŵr) yn dal i fod ar 'ration' ar ôl y rhyfel. Mae gen i frith gof bod yna ddau 'coupon', un glas ac un brown, y naill am alwyn o betrol 4 ceiniog (yr hen geiniog wrth gwrs) a'r llall am betrol 8 ceiniog y galwyn!! A dyma ennill fy nghyflog cynta erioed – 2 neu 3 ceiniog. Diolch, Wil.

Ond chwara teg i Wil, roedd o'n hen foi iawn, yn enwedig pan aem ni hogia i'w garej i ofyn iddo a gaem ni fynd i mewn o gwmpas y llawr gwaith i chwilota yn yr olew a'r baw am 'ball-bearings', sef y peli bach dur yna a oedd o leiaf gyfwerth â dwy farblen wydr pan oeddem yn chwara marblis yn y gwter yn iard ysgol Penybryn. Ac o ffeindio 'ball-bearings', eu sychu a'u rhwbio nes eu bod yn sgleinio, cyn mynd ati'n betrus i'w mentro mewn gêm o farblis.

Wrth sôn am garej Wil, neu garej Douglas, mae gen i atgof clir iawn am goeden dderw drawiadol a dyfai ar fin y palmant rhwng y garej honno a thai 'Glanogwen Cottages' bryd hynny, ac am y diwrnod y dymchwelwyd y goeden honno, a minnau'n gwyllo o bellter o fin y ffordd ger giât Eglwys Glanogwen. Dyna a fu tynged dwy goeden dderw urddasol arall gerllaw'r hen ysgol Glanogwen hefyd yn y chwedegau, tra'r oeddwn yn dal i fyw yn Nhŷ'r Ysgol.

Mae Elwyn yn cyfeirio at y 'Church House'. Er nad Eglwyswyr oedd fy nheulu i, i'r union 'Church House'



hwnnw yr es i, a hogia capeli eraill mae'n debyg, i ddathlu 'Watch Night' ar noson olaf mis Rhagfyr er mwyn derbyn y flwyddyn newydd yn ddiweddarach yn yr eglwys. Fe gofiau mai Twm / Tom Preis, Adwy'r Nant, oedd clochydd Eglwys Glanogwen bryd hynny, a dyna pryd, a minnau, mae'n debyg, tua 13 neu 14 oed, ar ôl gadael y 'Church House' tua hanner awr wedi un ar ddeg o'r gloch, yr euthum i gerdded i fynd i'r eglwys ar gyfer gwasanaeth byr. Ac oddi yno y cefais i ac eraill wedyn fynd i'r clochdy i hongian a swingio'n wyllt ar raff, neu raffau'r clychau i gyhoeddi bod y flwyddyn newydd wedi cyrraedd, heb i'r clochydd swyddogol falio fawr ddim am ganiad unrhyw glychau. A dyna'r unig dro y bûm yng nghlochdy unrhyw eglwys erioed yn fy mywyd. A da hynny, efallai. Fe gofiau fod enwau plant eraill cyn fy nyddiau i wedi eu naddu i wal y clochdy, ond dydy f'un i ddim yno. Tybed a yw enwau rhai eraill o ddarlennwyr presennol y 'Llais' yn y clochdy hwnnw?

Fe gofiau hefyd mai yn y 'Church House' ar noson clwb ieuencid neu beth bynnag y llusgwyd fi allan i lawr y neuadd, yn erbyn f'ewyllys efallai, gan ferch ychydig yn hŷn na mi i 'geisio' dawnsio'r 'quickstep', er nad oedd gen i syniad brân be oedd honno.

Yn ddiweddarach yn y 'Church House', a minnau erbyn hynny wedi dysgu dirgelion chwara chwist, fe dreuliais nifer o nosweithiau pleserus iawn yng nghwmni rhai llawer mwy profiadol na mi, yn gofalu nad oeddwn yn 'trympio' cerdyn 'ace' fy mhartner!!

A dyna rai o atgofion hapus iawn yn ystod fy nghyfnod cynnar yn Nyffryn Ogwen.

 **John Ffranccon Griffith,**
Abergele



C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu



Bethesda 01248 600045
Caernarfon 01286 676070
Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol
Stoc helaeth ac amrywiol
Staff cyfeillgar a phroffesiynol
Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768
Llanrwst 01492 640794
Caergybi 01407 728728

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni a Llanrwst

CARNIFAL BETHESDA

Wedi bwlch o dros 30 o flynyddoedd fe ddaeth y diwrnod. Ar ddydd Sadwrn Mai 21ain cynhaliwyd yr hir-ddisgwylidig "Carnifal Bethesda 2022". A dyna i chi beth oedd diwrnod a hanner. Diwrnod o hwyl, llawn digwyddiadau. Drwy'r misoedd diwethaf rydym wedi clywed a chael cymryd rhan mewn gweithgareddau yn ymwneud â'r carnifal. Pwy fedr anghofio Taith Sion Corn!

Mae pwyllgor y carnifal wedi cyfarfod yn gyson a gweithio'n ddiflino er mwyn trefnu a chodi arian ar gyfer yr achlysur. Un o'u hymdrechion a dalodd ar ei ganfed oedd sicrhau bod y Stryd Fawr, yr A5 neu'r "Lôn Bost" wedi ei chau am gyfnod er mwyn i'r orymdaith gael mynd yn ei blaen yn ddiramgwydd. Roedd y palmentydd ar bob ochr o'r Stryd Fawr yn llawn o bobl wedi dod i weld y digwyddiad oedd yn cychwyn o Barc Meurig ac yn diweddu yn Nôl Ddafydd. Wedi iddynt fynd heibio roedd y dyrfa wedyn yn llenwi'r lôn a'u dilyn i lawr. Efallai i chi fod yn lwcus a chael lolipop am ddim wrth fynd heibio staff Londis, oedd i gyd yn grand iawn.

Roedd digon i'w wneud wedyn ar gaeau Dôl Ddafydd gyda gwahanol stondinau, bwyellwyr a llawer o gystadlaethau. Roedd y sgwrsiau yn ddifyr a phawb yn mwynhau eu hunain yn cael cymdeithasu wedi'r ddwy flynedd a fu. Mae'n debyg bod llawer iawn o bobl a phlant hefyd wedi cael cymaint o hwyl yn dewis a gwneud gwisgoedd ffansi ac yn addurno fflotiau.

Mae ein diolch arbennig yn mynd i'r pwyllgor am eu gwaith arbennig ac yn wir maent wedi cyfarfod yn barod i roi post mortem i eleni er mwyn cynllunio erbyn flwyddyn nesaf! Diolch i'r noddwyr, y beirniaid ac i bawb a fu'n cynorthwyo ar y diwrnod. A diolch i chi bobl Dyffryn Ogwen am gefnogaeth ryfeddol.



Pwyllgor y Carnifal (heb Fiona Sherlock)

CANLYNIADAU

Beic neu bram wedi ei addurno
Babi Nobl
Gwisg Ffansi Meithrin a Derbyn
Gwisg Ffansi Blwyddyn 1 a 2
Gwisg Ffansi Blwyddyn 3 a 4
Gwisg Ffansi Blwyddyn 5 a 6
Gwisg Ffansi Oedolion
Gwisg Ffansi grwpiau neu gyplau

Tynnu Rhaff
Fflôt Orau

Llyr Bryn Williams
Fred Adl
Sadie Lee, Meithrin Llanllechid
Swyn Gwilym, Ysgol Abercaseg
Alisha Griffith, Ysgol Rhiwlas
Evan Griffith, Ysgol Rhiwlas
Dilys/Dylan Hughes, Stâd Coetmor
Sichon ac Emma Williams,
Maes Bledlyn.
Stone Masons
Ogwen Tigers o dan 9 ac 11



Fred – Babi Nobl



Swyn Gwilym (Blwyddyn 1, Abercaseg) – Gwisg Ffansi Blwyddyn 1 a 2



Dilys Hughes (AKA Dylan Hughes, Stad Coetmor) – Gwisg Ffansi Oedolion (16+)



Alisha Griffith (Blwyddyn 3, Ysgol Rhiwlas) – Gwisg Ffansi Blwyddyn 3 a 4 ac Evan Griffith (Blwyddyn 5, Ysgol Rhiwlas) – Gwisg Ffansi Blwyddyn 5 a 6





Sadie Lee Meithrin (Llanllechid) – Gwisg Ffansi Dosbarth Derbyn ac Iau



Timau Ogwen Tigers o dan 9 ac o dan 11 – Y Fflôt Orau



Sichon ac Emma Williams (Maes Bleddyn) – Gwisg Ffansi grwpiau neu gyplau



Llyr Bryn Williams (Mab Becca a Gareth Owen) – Beic Neu Bram wedi ei addurno



Rhiwlas

Iona Jones, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
ionarhiwen@hotmail.co.uk (01248 355336)

Cydyndeimlo

Cwta deg wythnos wedi marw Ronnie Hughes, bu farw ei wraig, Gwenda. Un o Rhiwlas ydoedd wedi'i geni a'i magu yn Stryd Wesla yn unig ferch i Susie Anni a John Henry Jones. Wedi priodi â Ronnie, roeddent yn byw yn Seion ac oherwydd gwaeledd fe ymgartrefodd yng Nghartref Willow Hall yng Nghaernarfon.

Anfonwn ein cofion at y meibion Bryn, Dilwyn ac Euron ac at ei pherthnasau a'i ffrindiau yn Rhiwlas. Bu'r angladd yng Nghapel Shiloh, Tregarth gyda'r Parch Wynne Roberts yn gwasanaethu.

Dymuno'n dda

Y mae Elwyn Jones, Fferm Tan y Weirglodd wedi ei ethol yn Gadeirydd Cyngor Gwynedd. Rydym yn ymfalchïo yn dy lwyddiant.

Clwb Creffttau

Y mae'r clwb wedi ail ddechrau cyfarfod ar nos Lun am 7o'r gloch. Mae'n noson hwyliog gyda phob aelod yn dewis beth mae am ei wneud. Croeso i aelodau hen a newydd.

Clwb Cant y Neuadd

Y mae Sharon Griffiths a Gillian Walker wedi gwirfoddoli i drefnu clwb cant y Neuadd ac rydym yn ddiolchgar iddynt am hyn. Yr enillydd cyntaf yw Gill Allen, llongyfarchiadau iddi. Os am ymuno â'r clwb cysylltwch ag un o aelodau'r pwyllgor.

Clwb Rhiwen

Cawsom bnawn difyr ac roedd Jean wedi trefnu cwis ar ein cyfer. Hefyd fe aethom i Ddeiniolen i weld arddangosfa yn seiliedig ar hanes tyfiant Deiniolen a Chlwt y Bont. Gareth Roberts oedd yn gyfrifol am hyn ac wedi trefnu paned a theisen inni. Roedd sawl un ohonom â chysylltiad a'r ardal. Diolchodd Ann

Gareth gyda'i dystysgrif



Gwerthfawrogi

Derbyniodd Gareth Williams. Caeau Gleision, dystysgrif am iddo wirfoddoli am 15 mlynedd yn Ysbyty Gwynedd. Da iawn ti, Gareth.

am y croeso a gawsom. Croeso i aelodau hen a newydd i droi i mewn atom.

Amgueddfa Lechi Cymru

Bu Cadi Iolen yn sgwrsio ar y radio am ben-blwydd arbennig yr Amgueddfa sy'n dathlu ei ben-blwydd yn 50 oed eleni. Pan ddaeth y chwarel i ben yn 1969 roedd offer a chelfi yn dal yno a phobl o bell ac agos â'i llygaid arnynt. Roedd prif beiriannydd y chwarel Huw Richard Jones yn benderfynol o gadw popeth yno a thrwy ei ddygnwch ef daeth y syniad i gael yr amgueddfa yn Llanberis ac yn ei sgwrs roedd Cadi yn pwysleisio fod yr Amgueddfa yn cynrychioli holl chwareli Cymru ac er enghraifft y mae'r tai wedi dod o gyffiniau Ffestiniog. Roedd hanes yr "hanner cant" yn ddifyr a lluniau a drwy'r degawdau i'w gweld yno. Roedd gweithdai yno a hefyd arddangosiadau

llawer mwy o weithgareddau. Diolch i bawb a fu'n gyfrifol am y trefnu.

Merched y Wawr

Cyfarfod Mis Mai. Roedd Linda wedi trefnu inni gael fideo o Cefyn Burgess yn rhoi ei hanes ym Mryniau Casia. Soniodd fel yr oedd yn casglu arian at y Genhadaeth i helpu pobl a phlant yn y rhan yno o India. Roedd y Methodistiaid yn anfon cenhadon yno; y cyntaf i fynd yno oedd Thomas Jones ac fe gyrhaeddodd ef a'i wraig Fryniau Casia yn 1841 a doedd iaith yr ardal heb ei hysgrifennu erioed a dysgodd Thomas Jones yr iaith, sef Casi, ac roedd yr ysgrifennu wedi ei seilio ar y Wyddor Gymraeg. Roedd hyn wedi ysgogi Cefyn i ddeall mwy ac aeth i ymweld â'r ardal fel rhan o'i brosiect gyda'r Presbyteriaid a Chyngor y Celfyddydau. Bore y Sul olaf o Fai roedd yn westai ar raglen John Roberts ar Radio Cymru ac yn siarad am ei brofiadau yno. Yn ogystal, mae arddangosfa o'i waith ym Mryniau Casia yn Storiol ym Mangor.

Llongyfarchiadau

Y mae Dylan Jones, mab Glenys a Tony, Bron y Waun wedi cael ei benodi yn Brifathro Ysgol Gyfun Amlwch. Wedi gadael Ysgol Rhiwlas aeth i Ysgol Dyffryn Ogwen ac yna i Brifysgol Aberystwyth, yna cychwyn ar ei swydd gyntaf yn Ysgol Glan Clwyd. Ar y funud y mae yn Ddirprwy Bennaeth yn Ysgol Dyffryn Ogwen. Pob dymuniad da i ti yn dy swydd newydd.

Atgofion

Ar y funud mae digon o sôn am y Frenhines yn dathlu 70 mlynedd ar yr orsedd. Rwy'n dangos fy oed yn cofio am y coroni ac mae'n rhaid fod rhywbeth wedi bod ymlaen yn y Neuadd gan fy mod yn cofio cerdded adref yn gafael yn dynn yn y myg a dderbyniais yno. Yn ogystal cafodd plant yr ysgol Destament Newydd a chlawr glas tywyll iddo. Ond roedd un o'r genod wedi cael un a chlawr coch iddo a deall wedyn mai Testament Saesneg ydoedd. Hefyd, cawsom fynd i Plaza i weld ffilm lliw am y coroni a dyna oedd y tro cyntaf i mi fod mewn sinema. Oes mwy o atgofion?

SIÂN GWENLLIAN

AELOD O'R SENEDD DROS ARFON

CYSYLLTWCH:

✉ sian.gwenllian@senedd.cymru

☎ 01286 672 076

📍 70 Stryd Fawr, Bangor

 Senedd Cymru
Welsh Parliament



Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan
Gomisiwn y Senedd o gronfeydd cyhoeddus

Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257

Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk



Carneddi

Sefydliad y Merched Carneddi

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Ffederasiwn Gwynedd-Caernarfon o SyM ym Mangor ar ddechrau mis Mai. Roedd aelodau Carneddi yn gyfrifol am gyfarfod a chrosawu pawb yno, rhannu ticedi a gwerthu raffl ar y diwrnod.

Y siaradwr gwadd oedd Mr Gareth Roberts, yn siarad am Statws Treftadaeth y Byd i'r diwydiant llechi gydag adloniant gan Julie Bulman. Cafwyd amser am sgwrs dros banad a chacan i orffen y prynhawn.

Mae cyfarfodydd Carneddi wedi bod fwy affurfiol yn ddiweddar ac rydym yn cyfarfod am banad a sgwrs yn Yr Innings.

Rydym yn edrych ymlaen i'n trip blynyddol ym Mis Gorffennaf.

Mae rhai aelodau, oherwydd amgylchiadau

gwahanol, wedi penderfynu peidio ag ail ymuno eleni. Buaswn yn hoffi diolch iddynt am eu gwasanaeth ffyddlon i'r Sefydliad dros y blynyddoedd.

Fe fydd y cyfarfodydd yn ail gychwyn ym mis Medi ar y dydd lau cyntaf o bob mis am 7 o'r gloch yn Cefnfaes.

Eleni mae SyM Carneddi yn dathlu 85 mlynedd ers sefydlu yn ôl ym 1937 yma ym Methesda. Teimlwyd gan yr aelodau ei fod yn bwysig i gario ymlaen yn enwedig gan fod hon yn flwyddyn bwysig i'r Sefydliad.

Os oes rhywun eisiau ymuno gyda ni mae croeso ichi gysylltu drwy E-bostio nicola.wynn@btinternet.com

Edrychwn ymlaen i groesawu aelodau newydd.

Calendr Llais Ogwan 2023

Lluniau ar gyfer Calendr 2023 i mewn cyn **31 GORFFENNAF 2022**, os gwelwch yn dda, er mwyn rhoi digon o amser i gynhyrchu'r calendr. Bydd unrhyw lun o ardal Dyffryn Ogwen (gan gynnwys y Carneddau a'r Glyderau) yn cael ei ystyried.



Lluniau fformat tirlun, os gwelwch yn dda

Cofiwch: nodi lle y cymerwyd y llun, rhoi teitl i'r llun, a chynnwys eich cyferiad a'ch enw Anfonwch eich llun(iau) trwy ebost at: calendr2023@outlook.com

Bydd y calendr ar werth ym mis Hydref – tybed fydd eich llun chi ynddo fo?

Oes gennych chi ddiddordeb i hysbysebu yn Llais Ogwan? Cysylltwch â Neville Hughes nev_hughes@btinternet.com

TEITHIAU ELFYN THOMAS TOURS

FFÔN 01407 731080 WWW.ELFYNTHOMAS.COM

31 Gorff	Amryw o becynnau i Eisteddfod Genedlaethol – 1-6 Diwrn	£139
08 Awst	Ynysoedd Arran, Bute ac Arfordir Swydd Ayr – 5 Diwrn	£499
12 Awst	Taith i Llundain – 3 Diwrn	£219
16 Awst	Drama'r Dioddefaint Oberammergau, Innsbruck – 10 Diwr	£1749
19 Awst	'Edinburgh Tattoo' – Yr Alban – 4 Diwr	£449
26 Awst	Tudur Wyn, Tri Digri, Traed Moch Mn yn Waterford Iwerddon – 4 Diwr	£399
30 Awst	'Belfast & Giants Causeway' – 4 Diwrn	£449
08 Medi	'Belfast & Giants Causeway' – 5 Diwrn	£549
15 Medi	Drama'r Dioddefaint Oberammergau, Innsbruck – 10 Diwrn	£1749
23 Medi	Andrea Bocelli – 'Utility Arena Birmingham', Caerlŷr a Stratford – 3 Diwrn	£299
01 Tach	Pawb ai' Fam am Amsterdam gyda Sêr Cymru – 3 Diwrn o	£239
05 Tach	Sioe Celf a Chrefft – NEC Birmingham 'Simply Christmas' – 2 Ddiwrn	£139
09 Hyd	Syr Bryn Terfel, Neuadd Symffoni, Birmingham – 2 Ddiwrn	£199



Marchnad Ogwen

Yn anffodus iawn iawn, ni fydd Marchnad Ogwen yn digwydd eto tan fis Medi. Nid yw niferoedd y cwsmeriaid yn y Clwb Criced a Bowlio wedi bod yn agos i'r hyn oedd yn mynychu Neuadd Ogwen. Fodd bynnag, mae'n rhaid diolch i rai o'n cwsmeriaid ffyddlon sydd wedi bod yn dal i ddod i'n cefnogi. Llawer o ddiolch.

Mae ein dyled yn fawr i'r Clwb Criced a Bowlio am eu croeso a'u cymorth i ni fel Marchnad. Diolch yn fawr.

Byddwn yn ail gychwyn y Farchnad yn **Neuadd Ogwen Medi'r 10fed** – gan obeithio yn bydd y gwaith yno wedi ei gwblhau erbyn hynny.

Rydym angen stondin fara a stondin gig – os oes rhywun â diddordeb. (Bydd rhaid bod gyda Sgôr Hylendid Bwyd o 4 neu 5 wrth gwrs). Mae lle i ychydig o stondinau newydd eraill hefyd. Bydd rhaid gwerthu nwyddau gwahanol i'r hyn sydd yn y Farchnad eisoes. Gallwch weld y stondinau sydd yn y Farchnad ar hyn o bryd ar ein gwefan www.marchnadogwen.co.uk Cysylltwch â'r ysgrifennydd i gael mwy o wybodaeth – ysgrifennydd@marchnadogwen.co.uk

Cadwch olwg ar y cyfryngau cymdeithasol, a phan welwch ein baner ym Mryn Bella a chyferbyn â Tesco ym mis Medi, DEWCH YN LLU! Bydd croeso cynnes fel arfer.

Mae gwybodeth lawn ar ein gwefan www.marchnadogwen.co.uk ac ar facebook.

SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru

**Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando**

**Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos**

0808 164 0123

Gwefan: www.samariaidbangor.cymru

Llandygái

Iona Wyn Jones, Dyma Fo, 16 Pentref, Llandygái, Bangor LL57 4HU (01248 354280)

Gwellhad buan i ddau o'r pentref, tŷ nesaf i'w gilydd. Mae'r ddau wedi cael llawdriniaeth o fewn diwrnod i'w gilydd, sef Dei Owen a Peter Bullen.

Croeso

Mae teulu wedi symud i'r pentref o Wcraïn. Mae'r fam Katya, mab 16 Danylo a geneth 7oed Ivanna, y ddau yn mynychu ysgolion lleol erbyn hyn ar ôl cyfnod caled iawn dramor.

EGLWYS SANT TEGAI, LLANDYGAI

Dathliad o'r Clochdy

Diolch i Martin Brown a'r clochdyddion am ganu clychau ar fore Sadwrn, Ebrill 30ain, i ddathlu Cadeirio'r Archesgob Cymru newydd yn yr Esgobaeth. Erbyn i'r Llais gael ei gyhoeddi bydd clychau St Tegai wedi canu hefyd ar Fehefin 3ydd i nodi Jiwibili Platinwm y Frenhines fel rhan o ddathliad clochdai ar draws

y wlad. Braff yw cario ymlaen y traddodiad eglwysig yma o nodi digwyddiadau hanesyddol.

Cymorth Cristnogol

Cynhaliwyd stondin gan St Tegai yn y Bore Coffi Cymorth Cristnogol ar ddydd Sadwrn, Mai 7fed, yng Nghanolfan Cefnfaes, Bethesda. Cyhoeddir y cyfanswm terfynol gan y Pwyllgor ar ran yr ardal.

Y Fynwent

Mae hi'n dymor torri gwair eto a bydd ein garddwr cyflogedig, Sion Roberts, yn dechrau ar ei waith o glirio'r fynwent unwaith mae blodau'r gwanwyn wedi gwywo. Yn y cyfamser, diolch i un o bentrefwyr Llandygai, sef Alan Radcliffe, am wirfoddoli i dorri llwybrau taclus at y beddau diweddaraf.

Mis Rhodd St Tegai 2022

Eleni bydd swyddogion yr eglwys yn ddiolchgar iawn cael unrhyw gyfraniad ar gyfer Cronfa Atgyweirio Rhan 2. Y Sul cyntaf ym mis Mehefin yw'r dyddiad arferol i ni ddathlu bywyd a gwasanaeth un o seintiau cynnar Cymru. Mab Ithel Hael tywysog o Lydaw yn y 6ed ganrif oedd

Tegai, yn un o deulu o seintiau Cymru yn cynnwys ei chwaer Santes Llechid, nawddsant Eglwys Llanllechid. Sefydlwyd ei eglwys gyntaf (ei gell) ble mae stâd ddiwydiannol Llandygai ond mae'r eglwys bresennol yn dyddio o'r 12fed ganrif. Os ydych yn dymuno cyfrannu i'n Mis Rhodd 2022, gallwch yrru eich siec, yn daladwy i Eglwys Llandegai, neu arian parod mewn amlenni trwy'r blwch postio i'r swyddogion:

Ann E. Williams (Warden y Ficer), Llwyn Coed, 9 Llwyn Bleddyn, Llanllechid, Bangor, Gwynedd LL57 3EF (Ffôn 01248 600719).

Nerys Jones (Ysgrifennydd yr Eglwys a Sacristan), 2 Bryn, Pentre Llandygai, Bangor, Gwynedd. LL57 4LD (Ffôn 01248 354369)

Edmond Douglas Pennant (Trysorydd a Warden y Bobl), Lodge Drws Melyn, Pentre Llandygai, Bangor, Gwynedd LL57 4HU.

Os gwelwch yn dda a wnewch chi ysgrifennu enw llawn, cyfeiriad ac e-bost ar eich rhodd: mae'n bosib hawlio Rhodd Cymorth am gyfraniadau cymwys.

Diolch i bawb o'r ardal sydd wedi dangos diddordeb neu wedi cyfrannu eisoes i'n hachos.

Y Parchedig Ddr. Gareth Lloyd

Cynhaliwyd y gwasanaeth sefydlu i'n Arweinydd Bro newydd yn Eglwys Glanogwen am 7 o'r gloch ar Fehefin 1af. Mae croeso cynnes i'r ardal i Gareth ac Elizabeth ei wraig ac edrychwn ymlaen at gyd-addoli o dan arweiniad ficer plwyf ar ôl bron i dair mlynedd. Cyhoeddir mwy o fanylion am sefyllfa agor Eglwys St Tegai pan fydd gwybodaeth pendant ar gael gan y pensaer, yr adeiladwyr a'r glanhawyr.



Llun St Tegai o'r ffenestr lliw ar wal dde corff yr eglwys

Llety'r Adar – Hanes Yr Enw

Mae sawl un wedi bod yn holi beth sydd y tu ôl i'r enw Llety'r Adar ar y stad dai newydd wrth y ganolfan feddygol ym Methesda.

Roedd Chwarel Llety'r Adar yn enw ar chwarel a agorwyd yng Nghoetmor yn 1797. Enwau eraill ar y chwarel hon oedd Chwarel Coetmor a Chloddfa'r Coed. Mae dau o'r enwau, os nad y tri, yn cyfeirio at y ffaith i'r chwarel gael ei hagor yng nghanol coedwig

enwog Y Coed Mawr, sef y goedwig a roddodd ei henw i'r hen blasty (Plas Coetmor) ac i dai a godwyd yn ddiweddarach yn y rhan o'r dyffryn. Bu'r chwarel hon ym mherchnogaeth nifer o ddatblygwyr hyd at ei chau yn 1857.

Lleolwyd y prif glogwyn islaw safle presennol Rhos y Coed ac Ysgol Dyffryn Ogwen gan ymestyn i gyfeiriad y gogledd yn gefn i Res Elfed a'r Lôn Newydd, sydd, wrth

gwrs, yn sefyldiadau llawer diweddarach ar gynllun yr hen chwarel.

Lleolwyd y prif dwll islaw'r clogwyn lle saif Capel Bethania heddiw, ac yn ystod y cyfnod yr oedd y chwarel wedi cau ffurfiai bwl dwfn a pherygl yn llawn dŵr yn barhaol. I'r gorllewin, yn ymestyn i gyfeiriad Dôl Ddafydd ac Afon Ogwen lleolwyd y tomennydd rwbel a ddefnyddiwyd mewn cyfnod diweddarach yn sylfaen i orsaf rheilffordd Bethesda a rhai o strydoedd tai ardal gogledd y pentref.

Roedd lôn bost Telford, a adeiladwyd rhwng 1815 ac 1820, yn rhannu'r chwarel yn ddwy adran – rhan y dwyrain yn cynnwys y clogwyn a'r twll, a rhan y gorllewin, y tomennydd gyda phont uwchlaw'r ffordd yn eu cysylltu.

Mae'r stad dai newydd – fel rhan o ffordd yr A5, y rhesi tai cyfagos a'r ganolfan feddygol – wedi ei hadeiladu ar hen safle tomennydd Chwarel Llety'r Adar. Mae'r enw Llety'r Adar felly nid yn unig yn gwbl briodol ar gyfer y safle, ond mae hefyd yn enw hyfryd, a dyma gyfle i gadw enw lle yn fyw i'r dyfodol drwy roi defnydd iddo. Dyma un ffordd o warchod ein enwau lleoedd.

(Daw'r wybodaeth o nodiadau John Ll. W. Williams a Lowri Williams ar wefan Hanes Dyffryn Ogwen, 31 Awst, 2020.)



Stad dai newydd Llety'r Adar

Talybont

Neville Hughes, 14 Pant, Bethesda (600853)
Barbara Jones, 1 Dol Helyg, Talybont (353500)

Mae'r ddraenen wen yn ei blodau, y wlad ar ei harddaf a'r dyddiau yn dechrau cynhesu'n braf. Er hynny, mae nifer o'n ffrindiau o'r pentref wedi profi mis digon annifyr o ran eu hiechyd.

Gwellhad Buan

Anfonwn ddyuniadau gorau am wellhad buan i Brian Johnson, 9 Bro Emrys, sy'n disgwyl canlyniadau profion o wahanol ysbytai. Gobeithio na fydd yn hir cyn y gwelwn o'n cychwyn allan, yn ôl ei arfer. Mae Brian yn hynod o weithgar yn yr Eglwys Babyddol ym Mangor Uchaf, lle mae gan pawb feddwl mawr ohono.

Mae Rita Hughes, 7 Lôn Ddŵr (Anti Rita Post) wedi cael pen-glin newydd sbon. Mae hi'n gwella'n ardderchog, ond yn dal i ddiodef cryn dipyn o boen. Brysia wella Rita, inni gael mwynhau dy gwmni unwaith eto.

Cafodd Cemlyn, 63 Bro Emrys, godwm cas, a thorri asgwrn o dan ei ben-glin. Bu ar ei faglau am chwech wythnos; cloffrwm go iawn! Ym mis Gorffennaf, bydd yn cychwyn ar gwrs hyfforddiant 42 wythnos mewn gweryll milwrol yn Lloegr, gyda'r bwriad o ymuno â'r Parafilwyr. Dymunwn bob llwyddiant iti, Cemlyn, yn dy yrfa ddewisedig.

Mae trigolion eraill, na fyntent gael eu henwi, yn yr ysbyty neu'n sâl yn eu cartrefi. Cofiwn yn gynnes iawn atynt i gyd, ac at aelodau'r teulu sy'n fawr eu gofal a'u pryder amdanynt.

Diolch

Dymuna Myfanwy Jones, 67 Bro Emrys, ddiolch i'w theulu, ei chymdogion a llu o ffrindiau, am yr holl gardiau, galwadau ffôn ac ymweliadau a dderbyniodd yn sgil ei thriniaeth ddiweddar. Mae'n braf ei gweld yn gwella'n ara' deg, ac yn medru mynd allan

Capel Bethlehem

Oedfaon (am 2 o'r gloch)
Mehefin
19: Parchg. Gerallt Lloyd Evans.
26: Y Gweinidog.

Gorffennaf

03: Parchg. Dafydd Coetmor Williams.
10: Y Gweinidog.
17: Parchg. Geraint Roberts.
24: Y Gweinidog.
31: Parchg. Iwan Llewelyn Jones.

Croeso cynnes i bawb.


Medal

Llongyfarchiadau i un o aelodau Bethlehem. Mae Enid Lloyd Davies, gynt o Bryn Derwas, wedi derbyn Medal Hir Wasanaeth gan y WRVS. Bu'n gwirfoddoli yng nghaffi Ysbyty Gwynedd am 25 mlynedd.

am dro byr. Mae'r haf o'th flaen, Myf, ond un cam ar y tro, cofia!

Babi Newydd

Llongyfarchiadau i Tanya a Stuart Thompson, 2 Bro Emrys, ar ddod yn Nain a Taid unwaith eto. Ar y 26ain o Fai, ganwyd George Henry i'w merch Charlotte a'i gŵr Gareth. Mae o'n frawd bach i Arthur William, sy'n dair oed bellach. Yn Rhiwlas mae'r teulu bach yn byw; yn ddigon agos iddynt fwynhau cwmni Nain a Taid yn aml. Mae'n braf bod Yncl Aaron gartref ar saib o'r Llynges, iddo gael adnabod ei nai bach newydd cyn hwylio i bellafoedd y byd.



Dilynwch Llais Ogwan ar
Trydar **@Llais_Ogwan**

Londis Bethesda

☎ 01248 605566

Archfarchnad hwylus
a Swyddfa Bost
Gwasanaeth personol

gyda'r pwyslais ar y cwsmer

Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy
Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos

Arfbais Douglas Arms

Cwrw Casgen - Gardd Gwrw

ORAU AGOR

Sul, Lluon a Mawrth - wedi cau
Mercher, Iau a Gwener 18.00 - 23.00
Sadwrn 15.30 - 23.00

01248 602537



Arbenigwr mewn lloriau coed caled

A.G.L.
Lloriau

Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

CAFFI COED Y BRENIN

1 Rhes Buddug, Bethesda
Ffôn: 01248 602550

Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)

Cinio arbennig bob dydd Iau

Bwyd i'w gario allan

Gwasanaeth arlwygo ar gyfer partïon o bob math - plant, pen-blwydd ac ati (yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)

Prisiau rhesymol

ORAU AGOR

D. Mercher, Iau, Gwener 8.00 - 2.30

Gadewch i
Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

L. Sturrs
a'i feibion
sefydlwyd yn 1965

ADEILADWYR

Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda

Ffôn: 600953

lsturrs@googlemail.com

Sefydlwyd

1969

m.hughes
a'i fab

CONTRACTWYR TOI

Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda
☎ 600633

☎ (symudol) 07702 583765

Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.

Côr y Penrhyn

gyda Derfel Roberts



Clwb Rygbi Bethesda'n croesawu Côr y Penrhyn

Yn ymarfer y côr a gynhaliwyd yn y Clwb Rygbi Nos Lun 9 Mai, cafwyd cyfarfod blynyddol y côr gyda Wyn Roberts, Llanfairfechan yn esgyn i'r gadair i gymryd lle Haydn Davies, a fu'n gwneud y swydd am dair blynedd i gyd. Oherwydd bod y pandemig wedi effeithio ar ddilyniant naturiol y drefn o benodi swyddogion bu Haydn yn gwneud y swydd am gyfnod hirach na'r cyffredin. Dymuna'r holl gôr ddiolch iddo am ei waith caled dros y cyfnod diweddar hwn a phob dymuniad da i Wyn wrth inni wynebu cyfnod newydd arall.



O'r chwith i'r dde, Derfel Roberts, Arwel Owen, Walter Williams Dilwyn Owen, Dafydd Ifans, Gwyn Burgess, Elfed Bullock, Ieuan Wyn. Methai Gareth Hughes fod yn bresennol.

Dathlu 50 mlynedd o aelodaeth

Cyn cychwyn ar weithgareddau'r cyfarfod blynyddol galwyd ar nifer o aelodau ymlaen i dderbyn llechen arysgrifedig a baratowyd gan Alun Davies gydag englynion gan y Prifardd Ieuan Wyn neu Mr Dilwyn Owen ar rai a phennill gan aelod o'r côr ar ambell un arall.

alwadau am wasanaeth y côr gan gynnwys Caernarfon, Bethesda a Llandudno, ond ar y 9fed o'r mis hwn bu rhai aelodau yn canu ym Mhenrhyn Porthdinllaen ar gyfer rhaglen i'r BBC 2 o'r enw, 'Take a Hike'. Fel rhan o ddiwedd glog mawreddog i'r rhaglen oedd cyfraniad y côr. Gobeithio eich bod wedi cael cyfle i'w gweld.

Perfformiad ar Benrhyn hardd Llŷn

Yn ystod Mehefin mae nifer o



Yr Wrolegydd Ymgynghorol (wedi ymdeol) Mr Aiakw yn derbyn sic am £3,718.00 gan Haydn Davies a Maldwyn Pritchard at ymchwil cancr y prostad. Canlyniad ymgyrch codi arian 'Tashwedd' gan aelodau'r côr yn ôl ar ddiwedd 2021 oedd yr arian a gasglwyd ac a gyflwynwyd i'r elusen.



Yr aelodau 50 mlynedd gyda'r arweinydd, Owain Arwel, ar y chwith a Wyn Roberts, Cadeirydd newydd y côr yn ei ymyl. Ar ochr dde eitha'r llun mae Haydn Davies, cyn gadeirydd y côr.

POPETH YN DDIEITHR?

'Be di hwnna?' oedd cwestiwn un plentyn bach yn ddiweddar o weld hen flwch ffôn coch ar ochr stryd. Mae'n anodd i blentyn a fagwyd yn oes y ffôn clyfar ddeall pam na phwy fyddai angen ffôn mewn cwt bach ar ochr lôn. I'r genhedlaeth iau, aeth y blwch ffôn coch a'i olynwyr mor ddieithr â blwch ffôn glas yr heddlu na fyddai nemor neb yn cofio amdano pe na fyddai Tardis Dr Who wedi ei seilio arno.

Profiad tebyg, ond mwy difrifol o lawer, y mae'r Athro Richard Wyn Jones yn ei rannu yn rhifyn cyfredol cylchgrawn Barn (Mehefin 2022). O ddarllen a gwerthfawrogi dwy gyfrol y Prifathro R. Tudur Jones, Ffydd ac Argyfwng Cenedl: Hanes Crefydd yng Nghymru, 1890–1914, meddai, 'mae'r Gymru a bortreadir gan Dr Tudur yn un gwbl, gwbl ddiarth i mi. Nid yn unig y credoau a goleddid sy'n ddieithr ... Y gwir amdani yw bod mwy neu lai popeth yn ddieithr. Disgwyliadau bywyd. Golygon ar

fywyd. Rhythmau bywyd, hyd yn oed.'

Mynd ymlaen i drafod agwedd pobl Cymru at y frenhiniaeth a wna'r erthygl yn Barn, gan symud o'r hyn a ddywed Dr Tudur am ymateb Cymru grefyddol oes Victoria i'r frenhiniaeth at ganlyniadau arolwg diweddar sy'n trafod agwedd y Gymru gyfoes i'r frenhiniaeth. Mae'n erthygl ddifyr, ond rhaid i chi ei darllen drosoch eich hunain os am wybod rhagor gan nad y mater hwnnw ond yr hyn a ddywed Richard Wyn Jones am 'bopeth yn ddieithr' aeth â'm sylw i yn bennaf. 'Mae dyn yn teimlo,' meddai, 'ei fod yn darllen nid yn unig am wlad arall ond am wareiddiad cwbl wahanol yn ogystal.'

Mae'r erthygl wedi gwneud i mi fod eisiau ail ddarllen cyfrolau Dr Tudur er mwyn f'atgoffa fy hun o'r hyn a ddywed am fywyd crefyddol Cymru yn y cyfnod dan sylw. Heb os, mae rhai pethau a fu'n rhan o ddiwylliant Cristnogol Cymru mor ddieithr i eglwysi'r Gymru gyfoes

ag yw'r blwch ffôn coch i blentyn bach. Ond mae yna bethau eraill nad aethant yn ddieithr o gwbl i gannoedd os nad miloedd o bobl o bob oed. Nid y lleiaf ohonynt yw'r credoau y sonia cyfrolau Dr Tudur amdanynt: credoau traddodiadol yr Eglwys Gristnogol. Trwy ras Duw, mae'r hen wirioneddau am Dduw a Christ a'r Ysbryd Glân a'r Eglwys yn dal i oleuo a chyfareddu a chalonogi dilynwyr Iesu Grist. Ac er pob newid a fu dros gyfnod o ganrif a mwy, mae Cristnogion ein dyddiau ni, fel eu rhagflaenwyr o gyfnodau a fu, yn dal i gredu yn y Duw Byw, yn dal i arddel Iesu Grist yn Waredwr, yn dal i geisio maddeuant Duw ac yn dal i ddeisyf nerth yr Ysbryd Glân er mwyn ei addoli a'i garu a'i wasanaethu. Oherwydd, beth bynnag y newidiadau allanol a diwylliannol, yr un ym mhob oes yw'r galon a gyffyrddwyd gan ras Duw yn Iesu Grist, a'r un o genhedlaeth i genhedlaeth yw'r dyhead i fyw er ei glod.

Rachub a Llanllechid

Emlyn Williams, Pont Llan, Llanllechid, Bangor, LL57 3LE (07887624459) henbarc13@gmail.com

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Gruffydd Beech, Llwyn Bedw ar gael dau safle cyntaf ac ail yn Eisteddfod Sirol Urdd Gobaiith Cymru ac am chwarae yn nhîm peldroed Gwynedd, y tîm gorau yng Nghymru. Llongyfarchiadau hefyd i Dafydd Meurig, pentref Llanllechid ar gael ei ail ethol yn gynghorydd sirol dros ward Arllechwedd.

Yn dilyn ei phriodas efo Hugh Davies, y mae Rebecca Scott yn byw ym Mhorthaethwy ac yn dal i helpu ei rhieni yn Siop Rachub, ond bellach y mae'r siop ar gau ar y Suliau.

O'r Cyngor

Cwynodd y cynghorydd cymunedol Michael Williams fod cerbydau gweithwyr adeiladu Cae Rhosydd yn parcio ym Maes Bleddyn ond cafodd wybod bod hyn dros dro. Ar gais y cynghorydd cymunedol Godfrey Northam, cytunodd Cyngor Bethesda i wneud cais i Gyngor Gwynedd i greu palmant rhwng Maes Bleddyn a'r fynwent am sawl rheswm. Yn dilyn ei lwyddiant i gael drych ym mhen Stryd Britannia, y mae'r cynghorydd sirol Paul Rowlinson wedi gwneud cais i Gyngor Gwynedd i gael drych ger gwaelod Llwybr Tŷ'n Ffridd.

Carmel, Llanllechid

Rydym ni'n anfon ein cofion annwyl at rai aelodau sydd heb fod yn dda yn ystod yr wythnosau diwethaf; Mr Godfrey Northam, Llwyn Bedw; Mrs Glenys Edwards, Cwlyn; Mrs Rhian Roberts, Rhos Buddug; Mrs Dilys Edwards, Ffordd Coetmor; Mr Keith Thomas, Tan y Garth a Mr Dilwyn Pritchard, Stad Bron Arfon. Dymunwn adferiad buan iddyn nhw i gyd.

Clwb Gwau

Mi gawsom ni drip i Abakhan yn ymyl Mostyn a'r Tweed Mill yn ymyl Llanelwy yn ystod mis Mai am y tro cyntaf ers rhyw dair blynedd. Roedd hi'n ddiwrnod braf ac roedd pawb yn hynod o falch o gael cymdeithasu, sgwrsio, a phrynu gwahanol bethau, wrth gwrs!

Clwb Dwylo Pysur

Rydym ni wedi aildechrau'r clwb i'r ieuenctid yn wythnosol erbyn hyn ar nos Wener. Mae nhw'n gwneud lluniau o fyd natur ar gynfas ac ar lechen las ar hyn o bryd.



Rhai o'r clwb yn ddiwyd yn gweithio ac yn sgwrsio wrth y byrddau.



Penblwyddi arbennig

Penblwydd Hapus lawn yn 90 oed ar Gorffennaf 15 i Gwilym Rees Evans, Ceunant, Llanllechid. Oddi wrth Karen, Tom a'r teulu i gyd.

Dymunwn benblwydd hapus i Gladys Brotherton yn 80 oed.

DIFYRION DIGIDOL

Deian ap Rhisiart

Fe wnes i drafod yn y golofn ddiwethaf am y sesiynau hel atgofion y cynhaliwyd mewn cartrefi gofal cyn y pandemig. Y tro hwn dwi am drafod prosiect arall cyffelyb sef y beic digidol.

Fe wnaeth Marc Davies o raglen Cymunedau Digidol Cymru fynd ati yn wreiddiol i adeiladu beic trwy ddilyn cyfarwyddiadau ar YouTube.com (mae YouTube gyda llaw yn wasanaeth amhrisiadwy fel canllaw i ddatrys problemau, adeiladu neu drwsio pob math o bethau!)

Mae'r beic digidol yn gymharol hawdd i'w adeiladu sy'n cynnwys beic ymarfer cyffredin ail law, cyfrifiadur rheoli sylfaenol Arduino, cebls i'w gysylltu trwy USB, botymau i reoli cyfeiriad, a gliniadur. Nid yw'n gofyn am arbenigedd mewn technoleg i allu adeiladu beic o'r fath! Yn ychwanegol, mae angen sgrin fawr, gall hwn fod yn daflunydd neu deledu clyfar. Y nod gyda beic digidol yw ysgogi ymarfer corff a sbarduno'r meddwl. Mae'r beic wedi cael ei gysylltu i Google StreetView ar y gliniadur ac mae posib pedlo eich hun ar hyd ffyrdd a heolydd Google i bedwar ban y byd.

Y cwestiwn cyntaf sydd gennym bob cyn iddynt ddechrau seiclo, "Lle ydych chi isio mynd?" Mewn un cartref henoed, roedd un yn awyddus i bedlo ar hyd ffyrdd troellog arfordir dramatig yr Amalfi yn yr Eidal am

ei bod yn mynd ar wyliau yno yn gyson dros y blynyddoedd. Yr oedd un preswylwr arall am seiclo ar hyd Times Square Efrog Newydd!


Roedd rhai o'r preswylwyr yn byw gyda Dementia ac wrth ei bodd yn pedlo trwy ffyrdd cefn gwlad Ynys Môn yn hel atgofion am ei milltir sgwar. Pedlo yn ôl i'w gorffennol i brofiadau hapus plentyndod – "Dyna'r man lle oeddwn ni'n lluchio cerrig i'r afon.... A dwi'n cofio mynd ar beic ar hyd y ffordd yma pan oeddwn i'n 8 oed". Roedd yr atgofion yn llifo ond roedd y corff hefyd yn cael ymarfer ar yr un pryd gan wella cylchrediad y gwaed. I breswylwyr sy'n dioddef o ddiffyg symudedd o ddydd i ddydd, mae'r beic digidol yn ffordd o gadw'r corff yn actif. Gyda'r preswylwyr yn gaeth i'r cartref, yr hyn sy'n wych yw fod y beic yn galluogi iddynt brofi mannau lle nad ydynt yn gallu ymweld yn gorfforol bellach.

Yn nechrau 2020, gyda fy nghydweithiwr Simon Jones, a ffisiotherapydd, Rakesh Kumar, cynigiwyd y syniad mewn cystadleuaeth ar gyfer Hacathon Iechyd Sefydliad Bevan ym Mharc Gwyddoniaeth MSPARC, Ynys Môn, ac fe ddaeth y syniad yn fuddugol gan ennill £7000 i ddatblygu'r syniad ymhellach. O ganlyniad, daeth y beic digidol i sylw'r genedl pan gafodd ei ffilmio ar raglen Heno yng Nghartref Gofal Hafan Cefni, Llangefni, Ynys Môn.



Yr ydym bellach wedi dechrau ailgyflwyno'r syniad i gartrefi gofal ar hyd a lled Cymru. Ein bryd yw galluogi partneriaeth rhwng grwpiau cymunedol neu fyfyrwyr blwyddyn 11 ysgolion uwchradd lleol fel rhan o'r cwricwlwm i gydweithio i adeiladu beic ei hun ar gyfer cartrefi henoed. Gallwn fel rhaglen gynig cyngor a chefnogaeth ar sut i adeiladu beic digidol a dangos sut y mae'r beic yn gweithio.

Os ydych chi'n athro neu'n athrawes mewn ysgol uwchradd neu'n gweithio mewn cartref gofal ac yn gweld cyfle yma i adeiladu beic a'l ddefnyddio mewn cartref gofal, gallwn eich rhoi ar ben ffordd, cysylltwch gyda mi deian.apRhisiart@wales.coop



YSGOL BODFEURIG

Ysgol Eco

Mae Ysgol Bodfeurig wedi ennill y wobwr Platinwm Eco Ysgolion ers rhai blyneddoddedd bellach ond nid rhywbeth sy'n cael ei roi unwaith yw'r wobwr, mae'n rhaid i'r ysgol brofi pob blwyddyn ei bod yn parhau gyda'r gwaith da ac yn cynnal safonau Ysgol Eco. Braff felly yw dweud fod y wobwr platinwm wedi cael ei ail achredu – diolch i'r Cyngor Eco am eu holl waith caled.



Fel rhan o'n ymdrech barhaus i fod yn Ysgol Eco mae Clwb Garddio wedi ei sefydlu yn yr ysgol. Bu criw gweithgar o rieni a plant yn paratoi gardd yr ysgol ar gyfer tyfu pob math o bethau gan gynnwys perlysiau, pwmpeni, blodau haul, tomatos a llawer mwy!



Hefyd mis yma daeth Mr Williams o'r Cyngor i siarad gyda ni am bwysigrwydd blodau gwyllt ac sut i ofalu amdanynt. Yn ddiweddar plannwyd ardal o flodau gwyllt yn yr ysgol sydd eisoes yn werth eu gweld. Y gobaith yw y byddent yn denu bob math o fywyd gwyllt i'r ysgol.

Ymwelwyr!

Dyna braff yw gweld wynebau'r plant wrth i ni unwaith eto gael croesawu ymwelwyr nôl i'r ysgol. Y mis yma gwelwyd lluo ohonynt! I ddechrau, daeth Mared a Gwion o Blas (Pontio) atom. Cafodd dosbarth Ogwen lawer o hwyl yn y gweithdy drama gan ddysgu llawer o sgiliau newydd.

Hefyd y mis yma cafwyd panto yn yr ysgol – sioe oedd hon gan Asiantaeth Safonau Bwyd. Roedd pawb o'r dosbarth derbyn i fyny

i flwyddyn 6 wedi gwirioni gyda'r sioe oedd yn llawer o hwyl yn ogystal a ffordd wych o'u dysgu am ddiogelwch cadw bwyd.



Mae Ed Holden neu 'Mr Phormula' yn hen ffrind i Ysgol Bodfeurig erbyn hyn felly braff oedd ei groesawu nol atom i gynnal gweithdai gyda pawb o'r ysgol o'r meithrin i flwyddyn 6! I unrhyw un sydd wedi ei weld yn perfformio mae'n wir anodd credu fod synnau megis hofrennydd a diferion dŵr yn cael eu creu ganddo gyda'i lais! Diolch Mr Phormula!

Byw'n Iach

Ers nifer o wythnosau bellach mae aelodau o tîm Byw'n Iach Gwynedd wedi bod yn ymweld â'r ysgol i gynnal nifer o weithgareddau i wella ffitrwydd a iechyd cyffredinol dosbarth Ogwen. Mae cyfleoedd wedi bod i ddawnsio, dysgu sgiliau ffrisbi a

llawer mwy. Un o sgiliau y mis yma oedd creu salad ffrwythau, cafodd pawb hwyl dda ar greu un ond roedd sypreis yn eu disgwyl... ar ôl gorffen daeth fan smwddis Swig atom a cafodd pawb gyfle i flasgu un o'i smwddis bendigedig. Tybed pa brofiadau fydd yn ein disgwyl nesaf?

Hwyl yn y dŵr

Thema dosbarth Idwal y tymor yma ydi Pitran Patran. Maent yn edrych ar bob math o bethau sy'n ymwneud â dŵr. Maent wedi bod yn brysur iawn hyd yn hyn yn ymchwilio i bontydd, cychod, anifeiliaid y môr ond yn well na dim oedd diwrnod hwyl yn y dŵr lle buon nhw'n cael pentwr o hwyl yn chwarae gyda dŵr, yn dysgu gyda dŵr a mwy na dim... yn gwlychu!



Cwm Idwal

Fel rhan o'u thema 'Awyr Iach' bu dosbarth Ogwen ar daith i Gwm Idwal gyda Stephen a Sonia o Anelu. Er gwaethaf y tywydd cafodd pawb ddiwrnod gwych yn dysgu am gynefin y cwm. Rydym yn ffodus iawn o gael byw mewn lle mor fendigedig!

Gwarchod Enwau Lleoedd Cymraeg – Galw Am Ddeddfwriaeth



Y Gwylwr ar y Glyder
Fach – enw sydd wedi
cael ei ddisodli gan yr enw
Saesneg 'Cantilever Stone'

Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

©Dr J. Elwyn Hughes



Fel y cofiwch, efallai, roeddwn wedi addo, wrth gloi fy ngholofn ym mis Mai, y byddwn yn troi fy wyneb at Westy'r Douglas ym mis Mehefin. Ond troi fy nghefn sydd rhaid, gan i ysgrif ymddangos yn Llais Ogwan yr union fis hwnnw ar y testun 'Diwedd Cyfnod yn y Douglas', gyda llun rhan o du blaen y gwesty ar y clawr! O ganlyniad, dw i am droi fy nhrwyn at adeilad a safai, unwaith, dros y ffordd i'r gwesty, sef Neuadd yr Eglwys, a elwid ar lafar yn 'Church House', adeilad go helaeth o friciau cochion, tŷ ynghlwm wrtho ar un ochr a chlwt o dir yr ochr arall, ger Tai'r Eglwys. Perthynai, wrth gwrs, i Eglwys Glanogwen a safai ar godiad tir ryw dafliad carreg y tu cefn iddo fwy neu lai. Ychydig a gofiai am y gweithgareddau a gynhelid yn y Neuadd ac edrychaf ymlaen at gael fy ngoleuo gan ddarllenwyr Llais Ogwan sydd â rhagor o hanes y Neuadd a gwybodaeth am yr hyn a gynhelid ynddi. Bydd darllenwyr Llais Ogwan yn siŵr o gofio bod y Neuadd a'r Tŷ wedi eu dymchwel rai blynyddoedd yn ôl a chlwtwr bach o dai bellach yn llenwi'r safle.

Croesi'r ffordd wedyn at Res Ogwen ('Ogwan Teras' fel yr arferid ei galw), rhes o dai tri llawr, a fyddai wedi creu argraff ffafriol iawn ar ddieithriaid yn cyrraedd y pentref o gyfeiriad Nant Ffrancon i weld prydferthwch ei golygfeydd ac olion y Chwyldro Diwydiannol fel yr amlgyid hwy gan Chwarel y Penrhyn a'i thomennydd.

Yn f'arddegau – a hyd yn oed ar ôl hynny – yr un adeilad oedd a thynfa arbennig i nifer o'm cyfoedion oedd 21 Rhes Ogwen, sef 'Siop Orme'. Roedd y perchennog, Sid Orme (na wn fawr ddim o'i hanes) yn amlwg yn ŵr busnes craff. Agorodd siop a chaffi ac yna heibio'r rheini, tuag at gefn yr adeilad, roedd bwrdd snwcyr/biliards ar yr un gwastad, yn ogystal â bwrdd soced (gêm bêl-droed lle gallai dau chwaraewr ar un ochr i'r bwrdd chwarae yn erbyn dau arall gyferbyn â nhw). Roedd grisiau'n arwain o'r llawr hwnnw i lawr o dano ond ni chofiai i mi na'm cyfeillion erioedd fentro i'r fan honno; naill ai roedd Edi Lelan yn ein gwahardd rhag mynd yno neu oherwydd ein bod yn amau mai dynion mewn oed oedd

yno'n betio! Yr un a gofiai yn glir oedd Prifathro Ysgol Dyffryn Ogwen (Mr Ronald Pardoe) yn ein rhybuddio i beidio â mynd yn agos at 'that den of iniquity' – wn i ddim pa sail oedd gynno fo dros honni mai rhyw ogof o ddrygioni oedd Siop Orme druan! 'Wn i ddim chwaith a wyddai mai Sid Orme oedd wedi codi 'pafiliwn' a maes bowllo a chyrtiau tenis mewn lle cyn ym Mharc Meurig (ryw ddau neu dri chan llath wedi i chi groesi Pont Ring ar ôl cerdded o'r Stryd Fawr rhwng Capel Bethesda a Siop Nymbyr Wan). Gwell i mi sôn, wrth gloi, am Bont Ring. Ni wn yr union ddyddiad pan ddigwyddodd lli anarferol o fawr a chryf yn Afon Ogwen ac ysgubo popeth o'i flaen, gan gynnwys Pont yr Inn a godwyd yng ngwaelod libart Gwesty'r Douglas (sef yr 'Inn', wrth gwrs). Penderfynwyd codi pont newydd mewn lle cyn ymhellach i lawr yr afon lle nad oedd bwrlwm y lli mor gryf, ac ailfedyddiwyd honno yn Bont Ring ar lafar. Troi fy ngolygon yn ôl a wnaf y mis nesaf at Ysgol Glanogwen, y Beehive, Cofeb y Rhyfel Byd Cyntaf, dwy Gofeb yr Ail Ryfel Byd, a Chapel Jerusalem.

Mae Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru, Cylch yr Iaith a chyrrff eraill yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddiogelu enwau lleoedd Cymraeg drwy gyfraith. Byddai hynny'n golygu gwarchod enwau lleoedd tirweddol ac enwau tai hanesyddol fel na fydd modd eu newid. Ar hyn o bryd, mae perffaith ryddid i newid enwau fel y mynnir, ac mae enwau cynhenid Cymraeg yn cael eu disodli gan enwau Saesneg sy'n cael eu defnyddio ar lafar, ar y we, mewn cyhoeddiadau print, ar y cyfryngau cymdeithasol ac ar y teledu a'r radio.

Bu ymdrechion ers dechrau'r 1980au i geisio cael yr Arolwg Ordans i barchu enwau lleoedd Cymraeg yn ardal y Glyderau. Ar y pryd, roedd eu mapiau yn nodi 'Nameless Peak' a 'Nameless Cwm' yn hytrach na 'Foelgoch' (Nant y Benglog) a 'Cwm Cneifion' (ar gwr Cwm Idwal), ond llwyddwyd i sicrhau bod y ddau enw yn cael eu nodi, ynghyd â 'Twill Du' a 'Rhiwiau Caws' yng Nghwm Idwal. Fodd bynnag, dan ddylanwad dringwyr a cherddwyr Saesneg mae'r arfer o roi enwau Saesneg ar nodweddion tirweddol yn y mynydd-dir wedi cynyddu dros y blynyddoedd.

Dyma restr o'r enwau Saesneg sy'n disodli enwau Cymraeg cynhenid yn Nyffryn Ogwen a'r cyffiniau.

Ogwen Valley (**Dyffryn Ogwen**; defnyddir Ogwen Valley yn aml hefyd am Nant Ffrancon a Nant y Benglog)
The Common (**Wern**, Gerlan)
The Commons (**Ffridd Fawr**, Pen y Ffriddoedd)
Leafy Lane (**Lôn Cochwillan**, Talybont)
Pillar of Elidir (**Craig Cwrwgl**, Marchlyn Mawr)
Mushroom Garden (**Coed Cerrig y Frân**, Nant Ffrancon)
Ogwen Falls (**Rhaeadr y Benglog**, Nant Ffrancon)
Ogwen Lake/Lake Ogwen (**Llyn Ogwen**)
Crib y Clogwyn Du (**Seniors Ridge**, Cwm Idwal)
Idwal Beach (**Y Ro**, Cwm Idwal)
Devil's Kitchen (**Twill Du**, Cwm Idwal)
Devil's Appendix (**Ffos Clogwyn y Geifr**, Cwm Idwal)
Atlantic Slab (**Craig Cwm Graeanog**, Nant Ffrancon)
The Glyders (**Y Glyderau**)
Cantilever Stone (**Y Gwylwr**, Y Glyder Fach)
Idwal Slabs (**Rhiwiau Caws**, Cwm Idwal)
Lake Australia (**Llyn Bochlwyd**)
Heather Terrace Path (**Llwybr Gwregys**, Tryfan)
Adam and Eve (**Y Bugail a'i Wraig**, Tryfan)
Gribin Facet (**Clogwyn y Tarw**, Cwm Idwal)
Idwal Stream (**Ffos Wen/Nant Ifan**, Cwm Idwal)
Black Ladders (**Ysgolion Duon**, Y Carneddau)
Aber Falls (**Rhaeadr Fawr**, Abergwyngregyn)

Mae diogelu enwau lleoedd yn yr amgylchedd naturiol ynghyd ag enwau yn yr amgylchedd adeiledig wedi ei gynnwys yn y Cytundeb Cydweithio rhwng Plaid Cymru a Llywodraeth Cymru, ac mae Plaid Cymru wedi pwysleisio mai dim ond deddfwriaeth fedr warchod enwau lleoedd Cymraeg. Mae ein henwau lleoedd yn rhan bwysig o'n hetifeddiaeth fel Cymry – yn rhan hanfodol o'n hunaniaeth fel gwlad ac fel cenedl.

Annwyl gyfeillion

Wyddoch chi bod RNIB yn cynnig gwasanaeth trawsgrifio am ddim i unigolion sydd yn methu darllen print cyfredol?


Boed y lle hudolus y mae'ch hoff lyfr yn arfer mynd â chi yno, neu atgofion arbennig sy'n cael eu cloi mewn llythyrau neu gyfnodolion nad ydych chi'n gallu eu darllen bellach, rydyn ni'n deall pwysigrwydd a phŵer y gair ysgrifenedig a pha mor anodd mae'n gallu bod i chi ddarllen yr hyn rydych chi eisiau, pan fyddwch eisiau.

Mae bywyd bob dydd yn llawn print a gall yr anallu i ddarllen hyn gyflwyno rhwystrau sylweddol i arwain bywyd annibynnol. Gall ein tîm helpu i gael gwared ar y rhwystrau hyn. Drwy gymryd eich print a'i drosi i fformat gallwch chi ei ddarllen eich hun – braille, print bras neu sain – gallent eich helpu chi i gadw mewn cysylltiad gyda'ch cymuned leol, parhau i fynychu grwpiau cymdeithasol a gweithgareddau, mwynhau eich hoff hobi, neu ehangu eich gorwelion drwy addysg neu deithio.

Os am fwy o wybodaeth am y gwasanaeth, cysylltwch drwy e-bostio cardifftranscription@rnib.org.uk neu ffonio 02922 749668.

Wrth gwrs, er mwyn gallu cynnal y gwasanaeth arbennig yma, rydym yn dibynnu ar garedigrwydd lluo o wirfoddolwyr i roi eu hamser i recordio'r print. Mae prinder darllenwyr Cymraeg ar hyn o bryd, felly rydym yn chwilio am bobl sydd yn mwynhau darllen, gyda llais dymunol a chllir, sgiliau TG da a gydag awr neu ddwy rydd yr wythnos i ymuno â ni. Os oes diddordeb gennych, e-bostiwch transcriptionportal@rnib.org.uk am fwy o wybodaeth.

Yr eiddoch yn gywir

 **Gwenllian Williams**
Gwasanaeth Trawsgrifio RNIB



SGANIWCH YMA!
i gymryd rhan



ARDAL NI 2035

Cyfle i rhoi eich barn ar sut i wneud
eich ardal leol yn lle gwell i fyw

Gallwch lenwi'r holiadur:

- ar-lein drwy ymweld â wefan dweudeichdweud.gwynedd.llyw.cymru;
- drwy geisio copi papur o'ch llyfrgell neu Siop Gwynedd lleol;
- drwy ffonio Galw Gwynedd (01766 771 000) i ofyn am gopi papur drwy'r post.
- Angen fersiwn hawdd ei ddarllen? E-bostiwch eichbarn@gwynedd.llyw.cymru neu ffoniwch Galw Gwynedd (01766 771 000)

Mae arolwg Ardal Ni ar agor tan 30 Mehefin



Llyfrgelloedd Penygroes a Dyffryn Ogwen yn elwa o Grant Gwella

Bydd Llyfrgell Penygroes a Llyfrgell Dyffryn Ogwen, Bethesda yn elwa o gyllid gwerth £56,000 gan Lywodraeth Cymru, drwy'r Cynllun Grant Cyfalaf Trawsnewid.

Bwriad y cyllid ydi helpu llyfrgelloedd ac amgueddfeydd lleol i ddatblygu eu cyfleusterau a'u gwasanaethau i ehangu mynediad, gweithio mewn partneriaeth, datgarboneiddio, a datblygu gwasanaethau mwy cynaliadwy. Bydd y gronfa hon yn ehangu mynediad ar gyfer cymunedau, yn hyrwyddo ymgysylltiad diwylliannol, yn darparu cyfleoedd dysgu ac yn cefnogi cydlyniant, cynaliadwyedd a ffyniant cymunedau.

Yn y cylch ariannu hwn, bydd y gronfa'n cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r ddwy lyfrgell yma drwy ddarparu grant gwella a hynny er mwyn gwireddu cynlluniau uchelgeisiol i ddatblygu Llyfrgell y Petha yn y ddau safle, ynghyd a chreu hwb Realiti Rhithwir yn Llyfrgell Penygroes a gardd llesiant yn

Llyfrgell Dyffryn Ogwen, Bethesda.

Petha yw enw'r prosiect i ddatblygu Llyfrgelloedd Pethau, ac mae Llyfrgelloedd Gwynedd yn gweithio mewn partneriaeth gyda Dolan, sy'n cynrychioli mentrau cymunedol Partneriaeth Ogwen, Cwmni Bro Ffestiniog a'r Orsaf ym Mhenygroes, ar y cynllun newydd cyffrous hwn. Fel eglurodd cydlynnydd y prosiect Petha, Catrin Wager:

"Yn syml iawn mae Llyfrgelloedd Petha yn debyg i wasanaethau llyfrgelloedd traddodiadol, ond yn hytrach na menthyg llyfrau gellir benthyg Petha. Fel arfer maen nhw'n cynnig benthyg teclynnau megis peiriannau gwnïo, tŵls, offer garddio neu lanhau, nwyddau ar gyfer campio neu deganau.

"Drwy fenthyg yn hytrach na phrynu eitemau o'r fath, gellir arbed arian, arbed lle yn ein cartrefi, lleihau ar ein dibyniaeth ar adnoddau a lleihau gwastraff, sydd yn dod ac effaith amgylcheddol positif.

"Mae'n newyddion gwych fod y gwasanaeth Llyfrgelloedd wedi ennill y grant hwn fydd yn cyflwyno gwasanaeth arloesol i drigolion Dyffrynnoedd Nantlle ac Ogwen, ac rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda'r llyfrgelloedd i ddatblygu'r prosiect ac i wreiddio'r syniad o fenthyg eitemau yn ogystal â benthyg llyfrau yn y cymunedau yma."

Bydd yr hwb rhithwir yn Llyfrgell Penygroes yn cynnig profiadau technolegol gwahanol i ennyn ymateb a diddordeb defnyddwyr a'r ardd lesiant yn Llyfrgell Dyffryn Ogwen yn defnyddio arbenigedd garddio cymunedol prosiect Dyffryn Gwyrdd i greu ardal i ymlacio, myfyrio ac ymgysylltu gyda natur tra'n cynnig cyfle hefyd i ddatlu diwylliant lenyddol gyfoethog Dyffryn Ogwen.

Mae Partneriaeth Ogwen eisoes wedi gwneud gwelliannau amgylcheddol i'r adeilad yn cynnwys gosod paneli solar Ynni

Gareth Williams
Trefnydd Angladdau

Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda
600763 neu 07708 008051
GWASANAETH DYDD A NOS

Elwyn Jones & Co

hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224

Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar

Swyddfeydd eraill:

Llangefni (01248) 723106 Porthaethwy (01248) 719517 Benllech (01248) 852782

Caernarfon (01248) 673616 Pwllheli (01758) 703000



Ysbrydoliaeth gan Rob Evans

Roedd amser yn mynd heibio a finnau heb setlo ar bwnc i ysgrifennu amdano'r mis yma, roedd fy mhen yn dioddef o fymryn bach o banig. Mae cael syniadau yn anodd pan mae rhywun yn y cyflwr yna. Ond ddoe roedd rhywbeth i edrych ymlaen ato – ar ôl dros ddwy flynedd o gyfyngiadau roedd Cymdeithas Hanes Bro Ogwr yn ymweld ag eglwys Llanilltud Fawr. Dyna le oedd 'coleg' seintiau Sant Illtud yn y pumed a'r chweched ganrif. Roedd hyn yn mynd i fod yn ddiddorol.

Roedd llawer i'w weld, hen feini yn y cyntedd cerrig beddau ar y llawr ym mhob man, murluniau, delwau a chofeb wedi ei gerfio gan lolo Morgannwg. Wrth gwrs efo gymaint i'w weld mae'n rhaid cael rhywun gwybodus i ddatgelu'r hanes ac roeddwn ni'n ffodus bod yr Athro Madelaine Gray yna i daflu golau ar bopeth. Hyn oll trwy gyfrwng y Gymraeg – pleser pur!

Diolch byth i Gymdeithas Hanes Bro Ogwr!

Ond dysgwyr wnaeth sefydlu'r

Gymdeithas a nid dim ond dysgwyr oedd yna, roedd cymysgedd dda o ddysgwyr a Chymry Cymraeg, tua 30 o bobl yn gyfan gwbl, pawb yn cymysgu, pawb yn adnabod ei gilydd. Dyma oedd enghraifft dda o'r gwahaniaeth mae dysgwyr yn gallu gwneud i'n cymunedau. Faint o ardaloedd dros Gymru fyddai'n elwa o'r fath gymdeithas? Llawer iawn dw i'n siŵr.

Ond mae'n gallu gweithio'r ffordd arall hefyd a does dim rhaid iddi fod yn gymdeithas hanes. Pa bynnag fath o gymdeithas dach chi'n dewis mae'n rhaid i chi gael cylch o bobl o'ch cwmpas cyn i chi ddechrau. Un peth dw i'n gwybod yw bod dysgwyr yn frwdfrydig, maen nhw eisiau defnyddio'r iaith maen nhw wedi bod mor brysur yn dysgu. Cymerwch amser i ddod i adnabod eich dysgwyr lleol, cysylltwch â'ch tiwtor lleol, trefnwch gael coffi efo nhw mewn caffi. Gofynnwch pa fath o gymdeithas a fydd o ddiddordeb iddyn nhw.

Cofiwch, ar ddechrau'r cyfnod clo roedd 9,000 o bobl wedi cofrestru i ddysgu Cymraeg – petaswn ni'n llwyddo i gael nhw i gyd i mewn i'n cymunedau Cymraeg byddai hynny'n gwneud lles mawr i'n hiaith annwyl. A'r bonws yw bydd mwy eto yn cofrestru bob mis Medi!

Mae'n gyfle rhy bwysig i'w wastraffu!



Mae arian wedi ei sicrhau fydd yn helpu i wireddu cynlluniau uchelgeisiol i ddatblygu Llyfrgell y Petha yn safleoedd llyfrgelloedd Penygroes a Dyffryn Ogwen, Bethesda. Yn y llun: partneriaid Petha y tu allan i Lyfrgell Dyffryn Ogwen – Kerry Walters o Wasanaeth Llyfrgelloedd Cyngor Gwynedd; Catrin Wager, Cydlynnydd Petha a Meleri Davies o Bartneriaeth Ogwen

Ogwen ar y to a gosod pwynt gwefru trydan a bydd y gwelliannau diweddaraf yma'n gam pellach i wyrddio'r adeilad.

Meddai Nia Gruffydd, Rheolwr Llyfrgelloedd Gwynedd:

“Rydym wedi gwirioni ein bod yn un o'r llond llaw o Lyfrgelloedd sydd wedi sicrhau cyllid

eleni i wireddu ein cynlluniau uchelgeisiol i wella a datblygu ein gwasanaethau yn Llyfrgelloedd Penygroes a Dyffryn Ogwen.

Mae Llyfrgelloedd yn cynnig llyfrau a mwy, a bydd y newidiadau byddwn yn gallu gwneud yn gwella profiadau a gwasanaethau defnyddwyr yn y ddwy ardal yma yn aruthrol.

“Rydym hefyd wrth ein bodd i allu gweithio gyda Partneriaeth Ogwen ac Yr Orsaf, Penygroes ar gynllun Petha, gan elwa ar eu cefnogaeth a'u harbenigedd mewn creu prosiectau cymunedol sy'n gwneud gwahaniaeth i fywydau trigolion lleol.”

“Mae Llyfrgelloedd Penygroes a Dyffryn Ogwen yn llyfrgelloedd bychain ond bywiog sy'n cael eu cefnogi'n dda gan y gymuned leol. Mae benthyciadau llyfrau yn Llyfrgell Penygroes yn gyson uchel, a'r gweithgareddau amser stori a chynllun podlediad i blant a phobl ifanc yn Llyfrgell Dyffryn Ogwen yn denu plant a theuluoedd i gymryd rhan.

“Edrychwn ymlaen yn arw i ddatblygu ein gweledigaeth ar gyfer y ddwy lyfrgell yma gyda Mari Roberts, Cymhorthydd Mewn Gofal Llyfrgell Penygroes, a Kerry Walters, Cymhorthydd Mewn Gofal Llyfrgell Dyffryn Ogwen, sydd wedi gwneud cymaint yn barod i wneud y ddwy lyfrgell yn wasanaeth pwysig a chanolog i ddefnyddwyr.”

Am fwy o wybodaeth am wasanaethau llyfrgelloedd Cyngor Gwynedd ewch i www.gwynedd.llyw.cymru/llyfrgell

Nofel gyntaf gan awdur ifanc

Mae awdur ifanc o Benrhyn Llŷn wedi cyhoeddi ei nofel gyntaf ar gyfer oedolion.

Pridd yw teitl y gyfrol a'r awdur yw Llŷr Titus. Y cyhoeddwy'r yw Gwasg y Bwthyn o Gaernarfon.

Nofel fer drawiadol yw Pridd sy'n bortread byw, ac effeithiol o gynnil, o gymeriad unigryw a'r newid yng nghefn gwlad.

Meddai Llŷr, 'Mae Pridd yn agos at fy nghalon i, fe gafodd hi ei hysbrydoli gan fy milltir sgwâr a'r syniad o berthyn, perthynas pobl â lle a sut mae'r naill yn siapio'r llall.'


Un o Fryn Mawr gerllaw Sarn ym Mhenrhyn Llŷn yw Llŷr sydd erbyn hyn yn byw yng Nghaernarfon.

Enillodd Goron Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn 2011, a'r Fedal Ddrama y flwyddyn olynol. Enillodd ei gyfrol gyntaf, nofel ffuglen wyddonol ar gyfer pobl ifanc, Gwalia, wobr Tir na Nog yn 2016.

Mae Llŷr hefyd yn ddramodydd; llwyfannwyd ei ddrama 'Drych' gan gwmni'r Frân Wen yn 2015 ac mae'n un o sylfaenwyr Cwmni drama'r Tebot. Sefydlodd ar y cyd yn ogystal gylchgrawn Y Stamp a'r wasg Cyhoeddiadau'r Stamp a bu'n un o olygyddion y cylchgrawn

a rhai cyhoeddiadau. Mae newydd gwblhau ei ddoethuriaeth ym maes Astudiaethau Celtaidd. Yn ogystal â llenyddia ac astudio bu hefyd yn gweithio fel ymchwilydd a sgriptiwr teledu.

Meddai Meinir Pierce Jones, Golygydd Creadigol Gwasg y Bwthyn, 'Yn Pridd ceir darlun cignoeth ond cyfareddol o fywyd Hen Wŷr yng nghefn gwlad Llŷn. Wrth ddarllen deuw'n ar draws trysorau bach o ddweud arbennig, dro ar ôl tro, sydd yn bleser pur.'



CYMDEITHAS HANES DYFFRYN OGWEN

Taith Gerdded : Pont Afon Llan at Bronnydd Isaf yng nghwmni'r Prifardd Ieuan Wyn
Nos Lun, Gorffennaf 4, 2022

Cyfarfod ger mynedfa Eglwys Llanllechid am 18.00
Byddwn yn cerdded ar y ffyrdd sydd yn arwain at Bronnydd Isaf – tua awr a hanner o gerdded hamddenol.

Daw bws drydan Partneriaeth Ogwen i'n casglu a'n dychwelyd (fesul grŵp) at Eglwys Llan.

Byddwn yn gorffen trwy fwynhau swper ysgafn yn nhafarn y Tryfan, Bethesda, o 20.00 ymlaen.

Noder yn garedig y bydd angen i bawb wneud eu trefniadau i deithio o Eglwys y Llan i Dafarn y Tryfan.

Cost : £5 y pen. Talu o flaen llaw trwy BACS 40-16-02 neu arian parod ar y noson

Croeso i aelodau a chefnogwyr y Gymdeithas Hanes
I archebu eich lle cysylltwch efo Gareth Llwyd – Ffôn: 601415 – gan nodi unrhyw anghenion deiet.

Cymanfa Ganu



Cyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd 2023, ar nos Sul 26 Mehefin, 2022 am 7.30

yng Nghapel Salem, Caernarfon.

Rhannau arweiniol gan y Parch Mererid Mair.
Arweinydd – Pat Jones; Organydd – Rhys Glyn.

Mynediad drwy raglen – £5 (arian parod) o Palas Print, Na Nôg, Llên Llŷn a Siop Eifionydd.
Croeso mawr i bawb.

Bydd Dechrau Canu Dechrau Canmol yn fflmio ar gyfer S4C.

Mary Jones, maryeds@hotmail.co.uk
(07443 047642)

Joe Hughes, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas, Bethesda (601902)

Gradd Anrhydedd

Llongyfarchiadau mawr i Menai Williams, Erw Las, ar dderbyn Gradd Anrhydedd gan Brifysgol Bangor am ei gwaith a'i chyfraniad i Gerddoriaeth yng Nghymru. Haeddiannol iawn!

Mynd am dro

Dyma Deio, Aeron, Elia, Loti, Awen ac Enlli o Gylch Meithrin Cefnfaes wrth eu bodd yn mynd am dro o gwmpas Bethesda a chael cyfle i droedio dros y bont i Barc Meurig.



Ysbyty

Cofion cynnes at y rhai sydd yn sâl gartref neu yn yr ysbyty. Dyma'r rhai a ddaeth i sylw'r Llais: Rhian Roberts, Rhes Buddug a John Roberts, Ffordd Pant.

Marwolaethau

Kelvin H. Owen

Yn Ysbyty Gwynedd ar 27 Ebrill, bu farw Kelvin H. Owen, Allt St. Ann, Bethesda, yn 67 mlwydd oed. Priod Gillian, tad Gethin a Ceri, taid Cynan a Rocco, a brawd David a Nigel.

Cynhaliwyd ei angladd ar fore Gwener, 13 Mai, yn Amlogfa Bangor. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch fel teulu yn St. Ann a hefyd ym Methesda.

Gerald Owen

Yn ei gartref yn Ffordd Stesion, ar 8 Mai, bu farw Gerald Owen yn 91 mlwydd oed. Priod y ddiweddar Glenys, tad Carol a Barry a thad yng nghyfraith Dafydd. Roedd yn daid i Emma, Mathew, Sarah, Nicola a Melanie, ac yn hen daid ac ewythr hoffus. Yn Eglwys Crist Glanogwen a Mynwent Coetmor y cynhaliwyd ei angladd, dan arweiniad y Parchg. Sara Roberts, gyda Mrs. Christine Edwards wrth yr organ. Cydymdeimlwn â chi fel teulu i gyd.

Griffith Charles Morris

Ar 19 Mai, yn ei gartref, Bigil, Rhos y Nant, bu farw Griffith Charles Morris, yn 83 mlwydd oed. Priod annwyl y ddiweddar Eleanor, tad caredig Enid, Huw, Ceri a'r ddiweddar Menna, a thad yng nghyfraith Dafydd, Siân, Sam a Phil. Roedd yn daid hoffus i Catrin, Iwan, Beca, Geraint, Dafydd, Mhairi, Elen, Harri, Owen, Hanna, Nansi a Nest. Roedd yn aelod yng Nghapel Jerusalem, yn gefnogol i sawl cymdeithas yn yr ardal, a than yn ddiweddar yn aelod gwerthfawr o Gyngor Cymuned Bethesda. I nodi dim ond dau gyfraniad yn unig ganddo, cofiwn iddo fod yn drefnydd cydwybodol Casgliad Wythnos Cymorth Cristnogol yn Nyffryn Ogwen am nifer o flynyddoedd, ac fe gofir hefyd am ei waith a'i frwdfrydedd gydag Ynni Ogwen.

Cynhaliwyd ei angladd fore Sadwrn, 28 Mai, yn Amlogfa Bangor, dan arweiniad Mr. Gwilym Williams gyda Mr. Iwan Williams wrth yr organ. Paratowyd teyrnged gan ei fab, Huw, ac fe'i cyflwynwyd gan ei wŷres, Beca. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch i gyd fel teulu.

Susan Elizabeth Murphy

Yng nghartref Glan Menai, Bangor, ar 17 Mai, bu farw Susan Elizabeth Murphy, gynt o Abercaseg a Rachub, yn 82 mlwydd oed. Mam Kevin a'r diweddar Nigel, nain annwyl i Louise, Lowry a Chloe, a hen nain i Connor, Reggie, Maddie a James. Bu ei hangladd fore Gwener, 27 Mai, gyda gwasanaeth yn Amlogfa Bangor dan arweiniad y Tad Morin, Bangor. Cydymdeimlwn â Kevin a'r teulu yn eu colled.

Ymdeol

Pob dymuniad da i Nigel P. Jones, Glanogwen, wrth iddo ymddeol o'i waith gyda Chyngor Conwy.

Wythnos Cymorth Cristnogol

Cafwyd bore coffi llwyddiannus i ddechrau'r wythnos yng Nghanolfan Cefnfaes. Gwnaed elw o £450.00. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Yna ar ddydd Sul, 15 Mai, cynhaliwyd Oedfa Undebol yng Nghapel Jerusalem dan arweiniad Mrs. Nerys Griffiths, gydag aelodau o eglwysi'r cylch yn cymryd rhan. Yn cynrychioli yr Eglwys Unedig (Jerusalem) oedd Menai Williams a Ceri Dart, Bethlehem Talybont – Neville Hughes, Eglwys Crist Glanogwen – Nicola Hughes, Carmel Llanllechid – Megan Tomos. Minnie Lewis oedd yn cyfeilio. Estynnwyd gair o groeso ar y dechrau, ynghyd â gair o ddiolch ar ddiwedd yr oedfa, gan Ceri Dart.

Eglwys Crist, Glanogwen

Croesawu Ficer newydd

Erbyn hyn bydd aelodau chwe eglwys Bro Ogwen wedi cael y cyfle i groesawu ein Ficer newydd, sef y Parchedig Ddoctor Gareth Llwyd, a'i wraig Elizabeth. Mae'r ddau yn cartrefu ym Mangor, wedi symud o Durham, a gobeithiwn yn fawr y bydd y ddau yn hapus iawn yn ein plith.

Codi Arian

Y digwyddiadau nesaf fydd Noson Bingo yn y Clwb Criced a Bowlïo nos Wener, Mehefin 17 am 7 yr hwyr – elw i Gronfa'r Apêl.

Bore Coffi yng Nghanolfan y Cefnfaes fore Sadwrn, Mehefin 25 – elw at gynnal yr eglwys.

Dewch yn llw i gefnogi.

Diolch i bawb ddaeth drwy'r glaw i gefnogi'r stondin yn y Carnifal, lle gwnaethpwyd elw o £120 tuag at yr Apêl.

Cyngordd

Mae trefniadau yn eu lle bellach i'r Cyngordd

Mawreddog gan Gôr Meibion y Penrhyn a Chôr Merched Marsh o Huddersfield, i'w gynnal yn yr eglwys nos Sadwrn Medi 24. I gychwyn am 7, a mynediad yn £10, a £5 i rai dan 16.

Tocynnau ar gael gan aelodau'r Côr a'r eglwys, ac hefyd yn Siop Ogwen. Bydd elw'r noson i fynd at atgyweirio twr yr eglwys. Diolch yn fawr i'r ddau gôr am eu haelioni.

Banc Bwyd y Gadeirlan

Diolch i bawb sydd yn cyfrannu'n gyson at

Cyngerdd Gŵyl Melangell

Cynhaliwyd y cyngerdd ar nos Wener, 27 Mai, yn Eglwys Crist Glanogwen. Wedi gair o groeso gan y Parch Sara Roberts, cafwyd noson o gerddoriaeth a llefaru gan Eric Maddern, Angharad Owen a chyfeillion, Lee Duggan, Lleisiau'r Mynydd, Claire Mace, Mark, a'r Pesda Jazz Collective. Yn ystod yr egwyl cafwyd cyfle i flasgu lluniaeth ysgafn wedi ei baratoi gan deuluoedd o Syria. Roedd elw'r noson yn mynd tuag at Croeso Menai, sef grŵp lleol yn noddi ffoduriaid.

Grŵp YesCymru Bethesda

Cyhoeddwyd yn ddiweddar bod gorymdaith fawr am annibyniaeth i Gymru yn cael ei threfnu ar yr 2il o Orffennaf yn Wrecsam. Bydd rhai o ddarllenwyr y Llais yn cofio i'r orymdaith wreiddiol ym mis Mai 2020 gael ei gohirio oherwydd y cyfnod clo, er mawr siom i'r ddau lond bws o Ddyffryn Ogwen oedd yn ymbaratoi i fynychu i chwifio eu baneri.

Mae'r orymdaith yn cael ei threfnu eto eleni gan griw 'All Under One Banner Cymru' (AUOB Cymru) ac mae YesCymru yn trefnu penwythnos o ddiwyddiadau yn Wrecsam i gyd-fynd â'r achlysur. Bydd Bryn Fôn yn perfformio gig yn Saith Seren ar y nos Wener ac ar fore Sadwrn y rali bydd stondinau a gweithgareddau i'w cael hyd strydoedd y 'ddinas' newydd, cyn i bawb ymgynnull ym Mharc Llwyn Isaf i gychwyn yr orymdaith yn brydlon am hanner dydd. I ddilyn bydd siaradwyr a cherddorion yn diddanu'r dorf ym Mharc Llwyn Isaf.

Yr ydym yn trefnu bws, neu ddau os bydd angen, i gefnogwyr YesCymru Bethesda. Bwriadwn gychwyn o'r stryd fawr (o flaen yr hen siop Spar) am 9.30 y bore gan ddechreio o Wrecsam am 5 o'r gloch. I archebu sedd ewch i wefan YesCymru <https://cy.yes.cymru/shop> (neu os nad oes gennych fynediad i'r rhyngwyd mae croeso i chi ffonio 07766 473209 i drefnu ffordd arall o dalu). Tocyn yn £10 i oedolion, £8 i fyfyrwyr a'r di-waith a £5 i blant. Croeso i bawb, yn aelodau YesCymru a chefnogwyr newydd annibyniaeth o bob plaid a lliw a llun, a chofiwch eich baneri a'ch cynnau a chlychau!

Penblwyddi Arbennig

Llongyfarchiadau i Marion Sullivan, Rhos Mostyn, ar ddathlu ei phenblwydd yn 70 mlwydd oed ar 25 Mai gobeithio ei bod wedi cael hwyl ar y dathlu.

Llongyfarchiadau hefyd i Menai Williams. Erw Las, a ddathlodd ei phenblwydd yn 80 oed ar 3 Mehefin. Gobeithio i chi fwynhau y dathliadau.

Yr un yw'r dymuniadau i Shirley Evans, Erw Las ar ddathlu ei phenblwydd yn 60 yn ddiweddar.

Penblwydd hapus iawn i Ceri-Ellen Speddy, merch Andrew a Helen yn un ar hugain oed ar Fehefin 23ain.

Mae Ceri-Ellen wedi cwblhau gradd BA Teledu, Theatr a Pherfformio ym Mhrifysgol Glyndwr Wrecsam yn ddiweddar a bellach mae hi adra ym Methesda. Pob hwyl i ti Ceri-Ellen a phob dymuniad da i'r dyfodol.

Diolch

Dymuna Shirley ddiolch o galon i bawb am yr holl anrhegion, cardiau a dymuniadau a dderbyniodd ar ei phenblwydd. Diolch i'r plantos am y parti syrpreis!



YMA I'CH HELPU

Eich cefnogi chi i wneud mwy ar-lein

- Cymorth personol gyda sgiliau digidol yn seiliedig ar eich diddordebau
- Sesiynau ar adeg ac mewn lle sy'n addas i chi
- Gallwn hefyd ddarparu dyfeisiau digidol, data neu gysylltiad mifi ar eich cyfer

Ffoniwch ni am ddim ar 0808 196 5883
digitalwynedd@citizensonline.org.uk

UK Government Wales
Llywodraeth y DU Cymru

Citizens Online

Dilynwch Llais Ogwan ar www.llaisogwan.com

y Banc Bwyd, sydd yn gwasanaethu pobl anghenus Bethesda a'r cylch. Mae mwy o werth nag erioed i'r gwasanaeth hwn, a'r gwirfoddolwyr yn gwerthfawrogi cyfraniad Glanogwen yn fawr.

Enillwyd y ddwy wobwr yn raffl mis Mai yn yr eglwys gan Nerys Jones, Llandegai, a Margaret Llechid Roberts, Eglwys Glanogwen. Penderfynodd y ddwy i roi'r nwyddau bwyd fel rhodd i'r Banc Bwyd, ac ychwanegwyd at y rhoddion uchod. Diolch yn fawr i Mr Alan Davies am roi'r hamperi, ac i bawb am y gefnogaeth.

Enillwyr Clwb Cant mis Mai:

£50: 175 – Mrs Christine Jones

£20: 103 – Ms Sian Lewis

£20: 78 – Angharad Wyn Beardsley

Llongyfarchiadau i'r enillwyr! Tynnir y gwobrau lwcus yng Ngwesty'r Douglas ar y nos Wener olaf o bob mis am 7.30; croeso cynnes i bawb.

Cofiw'n ein gweddïau am bawb sydd yn sâl neu'n unig yn y gymuned, gan gynnwys y rhai sydd yn hiraethu am anwyliaid; cofiwch roi gwybodaeth os gwyddoch am unrhyw un sydd angen gweddi, ymweliad, neu Gymun yn eu cartref.

Gwasanaethau

Pob Bore Sul am 11.00 y bore – Cymun Bendigaid

Pob Bore Mercher am 10.30 y bore – Cymun neu Foreol Weddi.

Croeso cynnes fel arfer i bawb.

Manylion Cyswllt

Gellir cysylltu â'r Deon Gwlad, sef y Parch. Tracy Jones ar 01248 361876 ynglŷn ag unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys, gan gynnwys trefnu priodas, angladd neu fedydd. Cofiwch bod Barbara (600530) a Glenys (600371) ar ben arall y ffôn os am gael sgwrs.

Yr Eglwys Unedig

Oedfaon

Diolch o galon i'r canlynol am ein harwain mewn gwasanaethau mor fendithiol yn ystod yr wythnosau a aeth heibio: Y Parchedig Cledwyn Williams; Mr Gwilym Williams; Mrs Nerys Griffiths; Y Parchedig Olaf Davies, a'r Canon Idris Thomas. 'Rydym yn gwerthfawrogi eich teyrngarwch i ni yn fawr iawn.

Profedigaeth

Gyda thristwch y daeth y newyddion i ni bod un o'n haelodau ffyddlonaf, a chyn-drysorydd, wedi ein gadael, sef Griff Charles Morris. Bydd colled fawr ar ei ôl, ac yn fwyfwy felly i'r teulu. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf â chwi oll. 'Da, was da a ffyddlon.'

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau calonnog iawn i un o'n haelodau, sef Buddug Watcyn Roberts, Tregarth, ar ennill y gystadleuaeth Stori Fer yn Eisteddfod yr Urdd, Dinbych. Mae Buddug ar hyn o bryd yn astudio ym Mhrifysgol Bangor ar gyfer gradd Meistr, ac yn gobeithio mynd ymlaen i wneud Doethuriaeth. Pob dymuniad da i ti, Buddug.

Cofion

Unwaith eto, anfonwn ein cofion at y rhai hynny sydd yn gaeth i'w cartrefi am ba bynnag reswm, gan obeithio y daw misoedd yr haf â dedwyddwch i chwi. Cofiw'n hefyd yn ein gweddïau am bobl Wcráin, a'r erchylltra y maent yn ei ddiodef.

Cyhoeddiadau'r Sul

Mehefin 12: Y Parchedig Anna Jane Evans (5) – Cymun

Mehefin 19: Y Parchedig Gerallt Lloyd Evans (10 a 5) – cynhelir bedydd yn ystod oedfa'r bore

Mehefin 26: Y Parchedig Brian Wright (10 a 5) – byddwn yn gobeithio ethol blaenoriaid newydd yn ystod oedfa'r bore.

Gorffennaf 3: Y Parchedig Olaf Davies (10)

Gorffennaf 10: I'w drefnu

Gorffennaf 17: Y Parchedig Huw Pritchard (10 a 5)

Croeso cynnes iawn i bawb, a chofiwch, bydd pob oedfa ar gael dros y ffôn fel arfer.

N'ad im fodloni ar ryw rith
O grefydd, heb ei grym,
Ond gwir adnabod lesu Grist
Yn fywyd annwyl im.

Dy gariad cryf rho'n f'ysbryd gwan
I ganlyn ar dy ôl;
Na chaffwyf drigfa mewn un man
Ond yn dy gynnes gôl.

Goleuni'r nef fo'n gymorth im,
I'm tywys yn y blaen;
Rhag imi droi oddi ar y ffordd
Bydd imi'n golofn dân.

Dafydd Morris

Glasiñfryn a Chaerhun

Mair Griffiths, (352966) mairpenybryn@gmail.com

Teithio Ewrop

Bu Huw, mab David a Carol Williams, Tyddyn Heilyn, Caerhun, sydd nawr yn byw yn St Albans, ar daith yn Ewrop yn ddiweddar efo Band Gruff Rhys. Mae Huw yn chwarae'r bâs dwbl a gitâr bâs yn y Band. Buont yn teithio rhan fwyaf yn Sbaen a Ffrainc. Ymysg y cynulleidfaoedd 'roedd llawer o Gymry, gan gynnwys chwaer Huw, Luned. Wedi dychwelyd o Ewrop bu'r Band yn cymryd rhan yn y BBC 6 Music Festival. Bydd mwy o gigs i ddilyn yn y misoedd nesaf. Mae Huw hefyd yn ymwneud â llawer o brosiectau jazz newydd a bydd yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron ym mis Awst.

Parti Gardd Frenhinol Palas Buckingham

Mynychodd Alwen a Phil Gardiner, Bryn Gwredog Ganol, Barti Frenhinol ym Mhalas Buckingham ar 25 Mai. Enwebwyd a dewiswyd Alwen i fynychu oherwydd ei theyrngarwch i'r Gwasanaeth Sifil ers 1975. Cafodd y ddau ddiwrnod fendigedig a byddant bob amser yn trysori'r atgofion.

Cylch Glasiñfryn

Cafwyd pnawn difyr iawn ac addysgiadol ar 11 Mai pan ddaeth Cynrig Hughes, Rallt Uchaf, Pentir atom i olrhain hanes diddorol Plas Pentir. Nid oes dim o'r Plas ar ôl erbyn hyn, ond mae peth o waliau'r berllan yn dal i sefyll. Mae llawer i fyth a stori ynghlwm â'r Plas, ac felly y cyflwynodd Cynrig ei sgwrs, beth oedd yn wir a beth oedd yn

ffug? Cyflwynodd y teuluoedd oedd wedi byw yno i fyny at y teulu olaf. Talwyd y diolchiadau gan Ann Illsley. Mwynhawyd paned wedi'r cyfarfod gan Jocelyn a Carole. Ar 8 Mehefin bydd Jess Jones, Swyddog Treftadaeth o Barc Cenedlaethol Eryri yn dod atom i sôn am Prosiect Treftadaeth Eryri sydd yn cael ei ariannu gan y Loteri. Ar 12 Gorffennaf byddwn yn ymweld â Gerddi Botaneg Treborth gyda bwffe i ddilyn, mwy o fanylion gan Ann Illsley. Braf iawn yw cael croesawu mwy o aelodau bob mis, cofiwch fod croeso cynnes yn eich disgwyl, pob cyfarfod yn dechrau am 2yp.

Symud Tŷ

Dymunwn yn dda i Dennis Jones o Fro Infryn sydd wedi symud i fyw i Bangor Uchaf. Pob hapusrwydd i chwi yn eich cartref newydd.

Brysiwch Wella

Mae nifer o bobl yr ardal wedi bod yn cael triniaeth mewn ysbytai yn ddiweddar a da o beth yw adrodd fod bob un ohonynt adref bellach ac yn gwella o ddydd i ddydd. Bu Eva Thomas, Sŵn y Coed, yn Ysbyty Broadgreen yn Lerpwl yn derbyn llawdriniaeth orthopedig, Ann Illsley, Pen Cefn wedi cael triniaeth orthopedig yn Ysbyty Gwynedd. Y mae Gwyneth Jones, Y Bwthyn newydd ddychwelyd adref o Ysbyty Walton ar ôl derbyn llawdriniaeth a hefyd ei gŵr Idwal yn dilyn cwrs o driniaethau yn Ysbyty Gwynedd. Pob dymuniad da i chwi i gyd am adferiad llwyr a buan.

Cynghorwyr Sir Dyffryn Ogwen Plaid Cymru



Tregarth a Mynydd Llandygai • cynghorydd.BecaRoberts@gwynedd.llyw.cymru • 07436 927237
Gerlan • cynghorydd.EinirWynWilliams@gwynedd.llyw.cymru • 07747 690456
Canol Bethesda • cynghorydd.RheinalltPuw@gwynedd.llyw.cymru • 07789 742092
Arllechwedd • cynghorydd.DafyddMeurig@gwynedd.llyw.cymru • 07765 400140
Rachub • cynghorydd.PaulRowlinson@gwynedd.llyw.cymru • 07949 034967

GRIFF CHARLES MORRIS – TEYRNGED

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Griff Charles Morris, Bigil, Rhos y Nant, Bethesda, ar Mai 19, 2022. Yn y gwasanaeth a gynhaliwyd i ddathlu ei fywyd, yn Amlogfa Bangor, fe'i disgrifiwyd fel "dyn tyner a charedig, cadarn a chryf. Bugail teulu Bigil." Bu'n ŵr annwyl a chefnogol i Eleanor – ergyd anferth i Griff oedd ei cholli hithau, chwe blynedd yn ôl, a hynny'n dilyn yr ergyd fawr arall i'r teulu rhai blynyddoedd ynghynt, sef marwolaeth eu merch, Menna. Cannwyll llygaid Griff oedd ei deulu o "bennau cochion", ac roedd yn meddwl y byd o Enid, Huw, Menna a Ceri, ac o'r nytheidiau o wyrion ac wyresau yn Nhregarth, Caerdydd, Yr Wyddgrug a Rachub. Byddai ymweld â nhw, neu – well byth – mwynhau eu cwmni o amgylch y bwrdd yn Bigil, dros wledd o tec-awe Indiaidd, yn un o bleserau pennaf Griff.

Byddai Griff bob tro'n barod i wasanaethu ei gymuned a'i phobl. Wedi ei fagu yn Neiniolen, roedd Bethesda a'r fro, a'r Gymraeg, yn agos at ei galon. Bu'n drysorydd trylwyr ar gyfer sawl mudiad ac achos da, gan fancio – dros y blynyddoedd – degau o filoedd o bunnoedd ar gyfer yr Urdd, Cymorth Cristnogol, a Chapel Jerusalem. Doedd dim byd yn hen ffasiwn amdano, ac roedd ganddo gred gref yn yr egwyddor o hunan gynhaliath amgylcheddol, gan gysylltu hynny efo meithrin hyder cymuned yn ei gallu i gymryd rheolaeth o'i hunan. Gwirfoddolodd yn hael o'i amser ar fwrdd Ynni Ogwen, nid yn unig fel Cyfarwyddwr craff a medrus ond hefyd yn ymarferol wrth arwain ar waith cyllidol dydd i ddydd y gymdeithas. Roedd



hefyd yn gwbl weithredol yn ymarferol, a byddai'n cynnal a chadw'r cwt tyrbin ac arwain teithiau at yr hydro.

Rhywsut, hefyd, ar ben y cyfan, roedd ganddo'r amser i weithredu yn enw Plaid Cymru fel Aelod craff o Gyngor Cymuned Bethesda.

Treuliodd Griff flynyddoedd yn darlithio yn yr Adran Fathemateg ym Mhrifysgol Bangor. Roedd yn addysgwr naturiol, efo'r amynedd a'r gallu i egluro ei bwnc. Cam digon priodol, felly, oedd iddo gychwyn ail yrfa ar ôl ymddeol o'r Brifysgol, gan ymuno efo un o'r timau fyddai'n arolygu ysgolion ar draws Cymru. Ar nifer o achlysuron, roedd ei synnwyr digrifwch, a'i anwydeb naturiol, diymdrech, wedi helpu i leddfu ambell sefyllfa digon anodd.

Mi roedd o'n ddewr iawn wrth wynebu ei salwch. Byth yn cwyno ac fe lwyddodd i fod yn annibynnol reit at y diwedd. Gwerthfawrogodd gefnogaeth ei gymdogion yn Rhos y Nant, a'r negeseuon cyson a gyrhaeddai o gyfeiriad cyfeillion pell ac agos. Bu cymorth tîm gofal lliniarol yn y gymuned yn werthfawr, a chymorth Meddygfa Bethesda.

Bydd Griff Charles Morris yn byw yn hir yng nghalonau'r teulu, a'i ddylanwad yn parhau i'n hysbrydoli yn Nyffryn Ogwen i'r dyfodol.

Diolch i Cynan Jones, Partneriaeth Ogwen, am yr englyn hyfryd yma :

Anodd gweld un llawn ynni – yn dawel,
Un diwyd fu'n cyfri
Yn ein bro na fynnai'n bri,
A'r wên yn drysor inni

PLAID CYMRU DYFFRYN OGWEN

Cynhaliwyd cyfarfod y Gangen ar nos Fercher, 1 Mehefin. Hwn oedd y cyfarfod cyntaf wedi'r etholiadau lleol, ac yn naturiol, yn gyfle i bwysu a mesur perfformiad y Blaid yn Nyffryn Ogwen. Mae pum sedd Dyffryn Ogwen ar Gyngor Gwynedd yn nwylo Plaid Cymru, sef Rheinallt Puw (Canol Bethesda), Paul Rowlinson (Rachub), y ddau yn gyn-gynghorwyr ac wedi eu dychwelyd yn ddiwrthwynebiad. Mae gan y Gerlan gynghorydd newydd, sef Einir Williams, hithau hefyd yn ddiwrthwynebiad. Llongyfarchwyd y tri ohonynt, yn ogystal â

Dafydd Meurig, a ddaliodd ei afael yn Ward Arllechwedd gyda mwyafrif mawr, a Beca Roberts a enillodd sedd Ward Tregarth a Mynydd Llandygai gyda buddugoliaeth gyfforddus. Mae'r gangen yn eu llongyfarch ac yn dymuno'n dda iddynt yn eu gwaith o wasanaethu etholwyr Dyffryn Ogwen.

Does fawr o newid ar aelodaeth y Cynghorau Cymuned gan na chynhaliwyd etholiadau yn yr un o'r wardiau y tro yma. Felly mae cynrychiolaeth gref Plaid Cymru yn parhau.

Treuliodd peth amser yn trafod

Owen's Tregarth
Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
Arbenigo mewn meysydd awyr
Cludiant Preifat a Bws Mini



01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk

MODURDY FFRYDLAS



Profion M.O.T.

Perchennog
A. LI. Williams

Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦

GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦ TEIARS A BATRIS ♦
GWASANAETH TORRI I LAWYR
NEU DDAMWAIN

☎ 600723
Ffacs: 605068

• CANOLFAN CEFNFAES •

Bore Coffi

Sadwrn,
25 Mehefin 2022
10.00 – 12.00



Mynediad: £1
Elw at Gynnal Eglwys Crist Glanogwen

gweithgareddau posib ar gyfer y flwyddyn er mwyn dod â'n haelodau a'n cefnogwyr at ei gilydd yn gymdeithasol. Gobeithir cyhoeddi rhaglen yn fuan.

Gyda thristwch y nodwyd marwolaeth un o'n haelodau mwyafrif cadarn, sef Griff Charles Morris, a fu'n aelod ffyddlon ers blynyddoedd lawer ac yn Gynghorydd Cymuned Plaid Cymru ar Gyngor Bethesda ers 2008. Diolchwyd am ei gyfraniad gwerthfawr i'w Blaid ac i'w fro, ac fe benderfynwyd anfon gair o gydymdeimlad at ei deulu yn eu profedigaeth.

Olwen Hills (Anti Olwen), 48 Bro Syr Ifor, Tregarth (600192)
Angharad Williams, 23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth (601544)
Gwenda Davies, Llanfairpwll (gwendaglyn@hotmail.com)

Priodas

Llongyfarchiadau i Guto a Iona Williams, Y Fenallt, Tal y Cae, ar eu priodas yn Eglwys Glanogwen, Bethesda ar Fai 21. Mae Guto yn fab i lolo a Nesta Williams a da oedd clywed fod lolo a Nesta wedi gwella digon i fod yn y briodas. Mae Nesta wedi cael cyfod yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar ac mae lolo mewn cartref gofal yn Llanberis.

Ennill yn Eisteddfod yr Urdd

Hyfryd oedd clywed y newyddion fod Buddug Watcyn Roberts, Penyffriddoedd, wedi dod i'r brig yng nghystadlwaueth y Stori Fer yn ogystal â dod yn ail am Ymateb Creadigol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Ddinbych 2022. Llongyfarchiadau enfawr i ti Buddug. Graddiodd Buddug llynedd ym Mhrifysgol Bangor ac ar hyn o bryd mae'n dilyn gwrs MA mewn ysgrifennu creadigol. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

Rhaglen Deledu

Tybed faint o ddarlennwyr y Llais fu'n dilyn y rhaglen 'Hot Cakes', ar sianel BBC1, ar Nos Lun yn ystod Mis Mai? Rhaglen am siop gacennau yng Nghaerdydd yn cael ei rhedeg gan ddau ffrind a phedair eraill yn gweithio yn y becws. Mae'r gacennau yn hollol arbennig ac yn werth eu gweld heb sôn am flasu yn fendigedig yn ôl y prynwyr. Un o'r merched sydd yn rhan o'r tîm ydi Mared Philips, sef merch Rhian Davies, gynt o Erw Faen, Tregarth a'i gwr Meurig Philips. Llongyfarchiadau i bawb sydd yn gweithio yn y becws a diolch am raglen llawn hwyl a pherffeithrwydd. Bu'r ddau fachgen sydd yn rhedeg y busnes yn sgwrsio ar y rhaglen Heno yn ddiweddar.

Cawsom gyfle i glywed Rhian, mam Mared, ar y newyddion yn ystod wythnos olaf Mis Mai. Mae Rhian yn bennaeth Ysgol Uwchradd Llanhari, Caerdydd, ac roedd yn sôn am y prinder athrawon uwchradd sydd yn gallu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn amryw o bynciau.

Adre o Nevada

Bu Gwyn Davies, mab Haydn ac Olga Davies, y Berllan, Dob, adre am wythnos gyda'i deulu o Las Vegas ar ddiwedd Mis Mai. Cafodd Gwyn groeso diall gan y teulu ac hefyd ei wraig Renne, ei ferched Elizabeth a Dwynwen, ei feibion yng nghyfraith Chris a Steven a'i orwyr Haydn sydd yn flwydd oed. Dyma'r tro cyntaf i Olga a Haydn gyfarfod Haydn Ogwen! Bu hen fagu, dwi'n siŵr!

Cangen Tregarth o Ferched y Wawr

Bu cyfarfod Cangen Tregarth o Ferched y Wawr yng Nghapel Shiloh Nos Lun Mai 9 a chroesawyd pawb gan y Llywydd, Myfanwy Harper.

Llongyfarchwyd Mary Jones (Mary Eds) ar ddathlu ei phenblwydd arbennig yn 70 oed.

Llongyfarchwyd Alwena ac Alan Puw ar ddathlu penblwydd 60 o fywyd priodasol.

Llongyfarchwyd Iona Rhys am ei herthygl yn y Wawr cyfredol lle

mae'n arddangos ei gwaith celf ac yn sôn am sefydlu y clwb gweu a chrosio yn y Clwb Rygbi ym Methesda bob Nos Iau sef 'O Res i Res'. Anfonwyd cofion annwyl at amryw o'r cyn-aelodau sydd heb fod yn dda eu hiechyd yn ddiweddar.

Gwr gwadd y noson oedd Tomos Hughes o Gerrigydrudion. Mae Tomos yn gweithio fel Swyddog Diffibilyr Gogledd Cymru ac yn gwneud y gwaith ers pymtheg mlynedd. Mae'n gyfrifol am osod y teclynnau achub bywyd yma yn ardaloedd y Gogledd ac roedd yn pwysleisio pa mor arwyddocaol ydi eu gwerth yn y gymuned. I ni yn Nhregarth mae un i'w gael yn y Ganolfan ac amryw ohonynt ym Methesda. Mae Tomos hefyd yn crwydro o gwmpas yn siarad am eu pwysigrwydd i grwpiau megis Merched y Wawr ac yn dangos yn glir ac effeithiol sut i'w defnyddio ac sut i roi CPR mewn achosion o waeledd. Cawsom wledd o noson yn ei gwmi ac roedd cymaint ohonom wedi cael budd o'i weld yn defnyddio'r offer mewn achos o argyfwng.

Bydd y gangen yn cyfarfod nesaf ar Fehefin 6 gyda'r noson yng Nghwmni Ben Stammers, Bethesda, yn sôn am wenoliaid. Croeso cynnes i'r holl aelodau ac aelodau newydd yn Ffestri Capel Shiloh am 7.30 o'r gloch.

Mae'n destun balchder mawr fod gennym Bwyllgor newydd fydd yn gyfrifol am y Gangen o Fis Medi ymlaen, sef Christine Morris Jones, Carol Jones a Delyth Jones, y tair yn byw drws nesa i'w gilydd bron yn Tal y Cae. Diolch genod am fod yn barod i gymryd yr awenau.

Capel Shiloh, Tregarth

Mae oedfaon yn Shiloh bob nos Sul am 5 o'r gloch a chofiwch am y Drws Agored ar fore Gwener o 10 tan 12 pan fydd croeso i bawb droi i mewn am banded, sgwrs a chwmi. Da gweld wynebau newydd yn mynychu cyfarfod bore Gwener.

Oedfaon

Mehefin 12	Ellie Jones, Coed y Parc
Mehefin 19	Philip Barnett, Swydd Efrog
Mehefin 26	Nerys Ann Griffiths, Caernarfon
Gorffennaf 3	Trefniant Lleol
Gorffennaf 10	Richard Gillion
Gorffennaf 17	Ffion Rowlinson
Gorffennaf 24	Richard Gillion
Gorffennaf 31	Philip Barnett

Yn Shiloh ar Fai 12 bu angladd un o aelodau'r capel sef Gwenda Hughes, Pennant, Seion, Llanddeiniolen, fu farw yng Nghartref Willow Hall, Caernarfon ar Fai 2 yn 86 oed. Bu farw ei gwr Ronnie ddeg wythnos yng nghynt a bu ei angladd yntau yn Shiloh. Cydymdeimlwn gyda'i meibion Bryn, Dilwyn ac Euron a'r teulu yn eu profedigaeth.

Profedigaeth

Mae ein cydymdeimlad fel ardal gyda theulu Gruff Charles Morris, Bigil, Rhos y Nant, Bethesda fu farw ar Fai 19. Cofiw'n yma yn Nhregarth am ei ferch Enid a'i phriod Dafydd Roberts, Cae'r Wern, Lon y Wern, a'u merched Catrin a'i gwr Iwan, a Beca.



Marchnad Ogwen

Medi 10fed
9.30am – 1pm

Neuadd Ogwen

Bwydydd,
Creffttau, Lleol

www.marchnadogwen.co.uk
Facebook

**Oes gennych chi ddiddordeb
i hysbysebu yn
Llais Ogwan?**

**Cysylltwch â Neville Hughes
(Ffôn 600853)**

nev_hughes@btinternet.com

Nyth y Gân



DAWNS Y PIWIAID

Dawns hynod, hen sy heno dan y coed
Yn cael ei pherfformio;
Y dawnus bryfed yno
Yn daer griw uwch dŵr a gro.

Y GWENYN A'R BLODAU

Yn gynnwys daeth y gwenyn yn bwylllog
I beillio pob blodyn,
A hardd oll yw'r gerddi hyn
Â hwythau'n wledd amheuthun.

FFOS Y MYNYDD

Mae hi'n delyn mewn dolydd o lithro
Hyd lethrau o'r gweunydd;
Rhed y dŵr ar hyd y dydd,
A'i miwsig lenwa'r meysydd.

Y GERDD

Rhagorol y bu'r geiriau yn disgwyl
Am dasg ein meddyliau
I'w rhwymo yn batrymau
Yn hardd o gain i'r gerdd gau.

Y BEIBL HEDDIW

Yn gorwedd y mae'r geiriau â'i gilydd
O'r golwg rhwng cloriau,
Yn aros drwy'r blin oriau
Wedi i hynod gylfnod gau.

Y FRÂN GOESGOCH

Ei magu yng Nghwm Eigiau, yn y lle
Sydd mor llwm ei erwau;
Yn hedd yr unigeddau
Yn brin mae'n dal i barhau.

FFYNNON TAN Y BRYN

Ganwyd trwch mwsog yno, a hwnnw
Yn hanner ei chuddio;
Dŵr glân o'r ffynnon honno
A gaed fan hyn ers cyn co'.

Ffynnon yn llawn barddoniaeth, a heddiw
Mae'n haeddu canmoliaeth;
Ei glân ddŵr i'r galon ddaeth,
A deil yn ysbrydoliaeth.

Dafydd Morris



SIOP OGWEN


yn cynnig gwasanaeth

CLIC A CHASGLU

Llawer o Nwyddau
Newydd
gan Grefftwyr Newydd
wedi cyrraedd y siop

Hefyd
Llu o gardiau cyfarch
ar gyfer pob achlysur.
Cysylltwch â'r siop ar
yffôn **07394 905881**

neu E-bost siop@ogwen.org
i drafod beth sydd ar gael ac i
wneud trefniadau casglu a thalu
**CEFNOGWCH WASANAETH
LLEOL**



**EGLWYS ANNIBYNNOL
BETHLEHEM TALYBONT**

TE MEFUS

Yn Festri Bethlehem

Nos Fercher, 29 Mehefin
am 7.00 yh
Mynediad : £2.00
Elw at y Capel



MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio

01248 600619



moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor,
Gwynedd LL57 4AY



JR SGAFFALDIAU Cyf. JR SCAFFOLDING Ltd. JR

YR IARD, Ffordd Stesion, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:

01248 601754

07770 568743 (symudol)





Crothell y baw

Wrth gerdded glannau llynnoedd ac afonydd yr ardal, efallai eich bod wedi sylwi ar nifer o bysgod bychain tua 4-10cm o hyd yn gwibio oddi wrthy ch drwy'r dŵr bas o ymyl y dorlan. Hawdd fyddai credu mai mag (pysgod ifanc) brithyllod brown ydyn nhw oherwydd eu lliwiau brith. Fodd bynnag, crethyll y baw (*Phoxinus phoxinus*) ydy'r pysgod mân hyn. Yn wir, maen nhw'n fwyd i'r brithyll brown! Daw'r creyr glas hefyd i'w dal ar hyd y glannau.

Lle hwylus i wyllo'r pysgod bychain hyn ydi glannau Llyn Ogwen. Maen nhw i'w gweld wrth y lan islaw wal y ffordd fawr yn y gornel wrth y cwt cwch; oddi ar dirlannau Aberbrwyn; ac yn nŵr bas a chymharol lonydd y gilfach ar ochr orllewinol Pen Bryn Melyn. Rai blynyddoedd yn ôl byddech yn gweld heigiau ohonyn nhw. Fodd bynnag, mae eu niferoedd wedi gostwng yn arw, o bosib oherwydd bod y pryfetach sy'n fwyd iddyn nhw wedi prinhaus.

Os sylwch yn fanwl ar y pysgodyn unigol, gallwch weld mai gwyrdd-frown ydi ei liw a bod bariau tywyll ar hyd ei gefn a rhesan dywyll i lawr ei ystlys. Coch ydi lliw bol y gwrw, efo bol y fanw o liw arian.

Mae ei enw, crothell y baw, yn un disgrifiadol. Croth fechan ydy ystyr 'crothell', ac un o nodweddion amlwg y pysgodyn hwn ydi ei fod



o'n foliog. Mae 'baw' yn rhan o'i enw oherwydd natur ei gynefin, sef y llaid ar wely llyn neu afon sy'n darparu bwyd iddo – pryfed a mân weddillion planhigion marw. Enwau arno mewn rhannau eraill o Gymru ydi brithyll y dom, crothell y dom, sil y dom a sildyn.

Ei bwysau ydi 8-16g. Gall fyw

am tua 5 mlynedd. Mae'r fanw yn claddu (bwrw grawn) nifer o weithiau rhwng Ebrill a Mehefin, a gall gynhyrchu hyd at fil o wyau bob tymor magu.

Mae yna hen ddywediad gwladgarol, 'Gwell fyddai bwyta crothell o Gymru na gleisiad (eog ifanc) o Loegr.'

* * *

Mewn ymateb i'r erthygl am y frân goesgoch y mis diwethaf, cefais wybod fod pâr wedi eu gweld ychydig wythnosau'n ôl yn Nant Ffrancon. Roedden nhw ar graig Bryn yr Hwyaidd ar lan Afon Ogwen rhwng Braich Tŷ Du a Maes Caradog.

Wyddech chi ...?

- fod cynefin uchaf llyffantod yng Nghymru yn Ffynnon Llyffaint dros 800m uwchlaw lefel y môr ar ochr ddwyreiniol Carnedd Llywelyn.
- fod yna dros 150 o eifr mynydd ar y Glyderau a Thryfan.
- fod Llyn Ogwen, efo tua 3 metr o ddyfnder, yn un o lynnoedd mwyaf bas yng Nghymru.
- fod sgwarnog albino (cwbl wyn) wedi ei gweld mewn cae yn Rhos Coch ym Môn y Llynedd (cofnod swyddogol).

Mae'r golofn hon yn rhoi sylw i ryfeddodau a gwahanol agweddau ar fyd natur Dyffryn Ogwen a'r cyffiniau, gan fanteisio ar wybodaeth leol ac ar ffynonellau eraill. Rhowch wybod os ydych wedi gweld rhywbeth anarferol ym myd natur yn yr ardal. Anfonwch eich cyfraniadau at Ieuan Wyn, Talgarreg, Ffordd Carneddi, Bethesda LL57 3SG ieuanwyn01@gmail.com 01248 600297.

PLAID LAFUR DYFFRYN OGWEN

Yn mis Ebrill, canolbwyntiwyd ar yr etholiadau lleol a sirol.

Felly, yng nghyfarfod deufisol rhithiol Mis Mai, llongyfarchwyd y pedwar a gafodd eu hethol i Gyngor Cymuned Bethesda dros Ward Rachub (Huw Jones, Godfrey Northam, Michael Williams a Walter Williams) a diolchwyd i Huw Jones am sefyll yn Ward Tregarth Mynydd-Llandygai yn yr etholiad sirol.

Yna, penderfynwyd cynnal Bore Coffi yng Nghanolfan Cymunedol Cefnfaes, Bethesda ar y Dydd Sadwrn cyntaf yn Mis Gorffennaf (Gorffennaf yr 2il), gyda mygiau printiedig ar werth am £3 yr un.

Wedyn cafwyd adroddiadau am waith Llywodraeth Cymru (e.e. gwario miliynau dros dair blynedd i hyrwyddo cerddoriaeth a chreu cronfa ariannol i adeiladu anheddau arbennig ar gyfer pobl anabl), Cyngor

Gwynedd (e.e. adeiladu cant o dai ar gyfer pobl nad ydynt yn gymwys i gael tŷ cymdeithasol na phrynu tŷ, a gwario £200K ychwanegol i hyrwyddo'r Gymraeg) a Chyngor Bethesda (e.e. ehangu cae chwarae Pantdreiniog a darparu teledu cylch cyfyng yn Stryd Fawr Bethesda).

Y cyfarfod nesaf yw'r cyfarfod blynyddol am 7:30 y.h. ar y drydedd Nos Fercher yn Mis Gorffennaf, sef yr 20fed.

CHWILAIR



Caneuon Côr Meibion Y Penrhyn

A	A	W	C	L	Y	C	H	A	U	R	G	O	G	F	H	R	I	L	E
J	L	C	M	B	V	B	H	X	J	U	I	S	V	S	H	E	I	L	M
C	A	R	O	L	G	W	R	Y	L	L	E	T	Y	G	V	H	M	A	D
W	O	N	A	B	Y	D	D	A	I	N	H	A	F	O	H	Y	D	N	H
U	T	Z	M	R	X	V	A	D	D	N	A	P	A	U	Q	U	S	F	O
F	U	R	P	Y	O	Q	Z	G	R	H	C	U	M	W	N	O	Y	A	R
I	A	A	S	Z	U	W	T	F	D	X	U	P	W	R	H	C	Q	I	H
W	G	E	H	O	Y	E	N	E	G	D	E	O	M	H	E	P	T	R	T
C	A	B	B	C	U	U	J	D	D	P	L	T	M	I	V	V	D	C	B
B	D	F	R	F	O	G	J	Y	Y	V	I	I	R	R	X	I	M	R	H
T	R	T	O	S	K	O	N	P	W	R	R	C	M	K	C	B	O	U	R
A	E	C	X	V	R	Y	Y	H	S	T	H	M	R	E	F	Y	J	A	D
I	F	Z	H	B	M	C	W	O	S	C	R	O	A	I	X	N	I	N	L
R	X	J	J	Y	M	B	W	T	E	X	M	D	R	X	K	F	U	Y	P
O	C	Q	T	Y	O	I	L	F	E	R	Z	Q	R	N	O	C	T	L	D
L	G	N	W	S	T	Y	D	D	Y	N	L	L	W	Y	N	L	Z	E	E
G	A	N	O	I	N	Y	L	E	M	U	A	I	N	Y	R	B	Y	D	B
N	E	A	J	K	P	A	N	D	D	A	W	Y	F	O	R	Y	J	Y	C
L	N	L	R	V	O	G	J	P	W	P	G	S	O	W	J	J	Q	U	L
F	S	V	T	X	E	U	G	H	S	L	Z	E	A	F	X	I	W	T	Z

Yn y Chwilair mis yma mae **ENW DEUDEG CÂN MAE CÔR MEIBION Y PENRHYN** wedi canu tros y blynyddoedd i'w darganfod. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn un llythren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y Chwilair dangosir hwynt fel dwy lythren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn 23 Mehefin. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobwr.

Dyma atebion Chwilair Mai:

Angharad Tomos; Annes Glyn; Bethan Gwanas; Caradog Prichard; Catrin Dafydd; Daniel Owen; Edward Tegla Davies; Eigr Lewis Roberts; Marion Eames; Nicholas Daniels; Saunders Lewis; T. Rowland Hughes.

Diolch yn fawr i chi oll am rhoi cynnig ar y Chwilair, y rhai ffyddlon sydd yn ceisio pob mis, a hefyd nifer fawr o gystadleuwyr newydd. Rhai wedi dod yn agos ond eto ddim wedi darganfod yr holl atebion, daliwch ati. Bob lwc gyda'r Chwilair y mis yma.

Dyma enwau'r rhai a gafodd yr

atebion cywir: Dilys Wyn Griffith, Abergele; Marilyn Jones, Glan Ffrydilas; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Doris Shaw, Bangor; Gwen Davies, Tanysgraffell Isaf; Ron Evans, Llanllechid; Rosemary Williams, Tregarth; Elizabeth Buckley, Tregarth; M. Jones, Yr Ynys, Rachub; Gwenda Bowen, Gerlan; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Olive Williams, Maes y Garnedd; Ann Smith, Bryntirion; Eirwen Owen, Erw Las; Nia Wyn Bagnall, Llandygai; Colin Davies, Blaenau Ffestiniog.

Enillydd Mai oedd: M. Jones, Awelon, Yr Ynys, Rachub, LL57 3ED.

Iaith Pesda

Rwyf am ddechrau'r golofn heddiw gyda phwt sy'n defnyddio tafodiaith gyffredinol ardal chwaredli Gwynedd. Mae'n debyg eich bod yn gyfarwydd â nifer ohonynt. Ond efallai nad oes gymaint o ddefnydd ar rai erbyn hyn. Dwi ddim yn siŵr os y buaswn eisiau tynnu blewyn o drwyn y person arbennig yma sy'n synfyfrio am gymeriadau arbennig!

"Sma'i yr hen goes, roeddet ti yn grand ryfeddol yn dy ddydd. Ac yn slediad a hanner i'th edmygu yn dy breim. Hen slebog tew ydi'r gwr ond fel hen lilyn trôns rydw i'n ei gofio fo. Hen jadan flin, hen drwynan oedd i fam o, sguthan o ddyndas, a bob amsar am y gora i ddeud i deud, yn ribi di rês o eiria croes, ond ar fy engoch i fe beidiodd y giamocs wrth i henaint rychu yr hen dyrchan. Cafodd cefndar y gwr, sgliffyn main ar y gora, ac yn dipyn o lodyn, ddim dwad dros y trothwy unwaith y cafodd o ddwylo blewog ac mi ddechreuodd ei rhaffu hi am orfod byw yn y sbensh, a chodi tebyg and oedd neb yn i goelio fo. Mi sbrwsiodd y snichyn yn ofnatsan wedi cael gwraig, ond bremsiach annwyl mi ddechreuodd i cholli hi yn wirion bost, dim yn llawn llathan medda rhai, on'd oedd y dyn di dal hi'n feddw gaib bron bob nos nes bod i ddanadd o'n rhincian a'i biso fo ar y brethyn.

Hen wlanan yn dwrdio ydy lfan a medda mam paid a cyboli efo fo eto mae o bownd o bwgro eto i drio tynnu sylw. Mi geith bancan cyn bo hir a mi roith rywun gefn llaw iddo. Celpen go egar iddo fo, am fod mor bowld. Mae o mewn rhyw starch bob amser, ar ben i denyn a rhyw hen fyrath piwis yn i yrry fo. Smonach o ddynd yn dwrdio ydio, ond dio ddim hannar call, wedi i cholli hi medda rhei, ond fuodd o rioed efo llawer o grebwill nac yn llawn llathan, yn ffrwcslyd iawn ar y gora, ond dyna ni, dio ddim wedi dorri o'r un brethyn a ni.

Mi ath hi'n sownd yn y cwt yn ben rar, nid yn y twll dan grisia, yn drymplan dindrwm ac yno y buo hi ar i chwrcwd a neb yn poeni.

Mae o'n sgit am fwyd bob amsar, yn dipyn o jarff medda nhw, ond mi wnath ryw boitsh neu gilydd a fuo fo byth 'run fath wedyn. Siwgwr mêl i fam oedd o a hitha yn gwafars gyd bob amsar yn

alandro fel tasa hi'n by war bincws. Ond, mae gan bawb ei binas ond oes?"

Diolch am y cyfraniad yna, anfonwch eich sylwadau.

Daeth mis Mehefin a throad y rhod, ydych chi'n cofio cael eich siarsio ers talwm i beidio tynnu fest na mynd i nofio yn yr afon cyn troad y rhod. Mae'n siŵr bod enwau a dywediadau yn ymwneud â nofio yn yr afon. Dyma un ohonynt

plym

Cyn creu pyllau nofio pwrpasol mewn trefi, mynd i nofio mewn pyllau yn yr afon a wnâi plant fyddai heb fod yn byw yn agos iawn i'r môr. Ac felly roedd hi yma yn ein hardal ni. Mewn pyllau yn yr Afon Gaseg yr arferai blant y Gerlan fynd i drochi. Un pwll poblogaidd oedd Llynmaen (Llyn y Maen, mae craig fawr ar un lan iddo) o dan Gwaun Gwail. Pwll arall oedd Llyn Droell (Llyn y Droellan – mae trobwill ynddo. "Mynd am blym" fyddai'r plant yn ei ddweud, a daw'r 'plym' o 'plymio, sef mynd i mewn i'r dŵr dros eich pen. Wyddoch chi am fwy?

Ambell i air

Pipi-down

"Ista'n llonydd, ti fatha pipi-down" mae sawl un ohonom wedi ein siarsio fel hyn. Rwyf wedi cael y gwybodaeth mai top oedd pipi-down oedd yn neidio l fyny ac l lawr wrth gael ei chwipio.

'sbianu

Mi fyddai wrth fy modd clywed y gair hwn 'sef talfyriad ar y gair chwibannu.

Iëff

Ochr bwrdd oedd yn medru cael ei godi er mwyn gwneud y bwrdd yn fwy.

Clertian

Segura, lled orwedd yn ddiog.

Ac i orffen, rywun i ddweud am y gwynt pan oedd yn aros am fws i Fangor ryw fore, "Gwynt diog 'di hwn, yn lle mynd o'ch cwmpas chi mae'n mynd reit drwdda chi"

Unrhyw gyfraniadau neu sylwadau anfonwch at Mary Jones, 42 Erw Las, Bethesda LL57 3NN, Ffôn 07443047642 maryeds@hotmail.co.uk

JOHN ROBERTS



Paentiwr

Papurwr

Teilsiw

Symudol: 07747 628650

Ffôn: 01248 600995

Dilynwch Llais Ogwan ar
Trydar @Llais_Ogwan



BYSUS
D. P. Owens
RHIWLAS

01248 361044 a 07771 634195



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATI.

Bysus Gwyrdd Rhiwlas

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

CHRIS GRIFFITHS CYF

Trwsio ffenestri upvc, drysau,
cloeau, bachau, twll llythyrau ac
unedau gwydr wedi chwythu



18 Carreg Felin
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB

☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

TEMPLE MORRIS A'I FAB

Pob Math o Waliâu Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.

07770 900531

01248 600282

jtemplemorris@btinternet.com

BARBWR OGWEN



Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant gan Alison
Rhaid gwneud apwyntiad.
Ffoniwch: 07796 038824

DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy
losgi coed

01248 605207

Y Gerlan

Caren Brown, Cilwern, 14 Ffordd Gerlan, Bethesda, LL57 3ST. (01248 602509 / 07789 916166) carenelaine@hotmail.com

Linda Brown, 1 Gwernydd, Gerlan, Bethesda, LL57 3TY. (01248 601526)

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Rhiannon O'Marah, Gwernydd sydd wedi llwyddo i gwblhau ei hail Msc (Seicoleg) gyda "distinction". Mae hi hefyd yn dathlu iddi ennill lle ar gwrs PhD Seicoleg Glinigol yn Lancaster. Llongyfarchiadau mawr iti Rhiannon a phob dymuniad da iti ar dy gwrs nesaf.

Dathlu penblwyddi arbennig

Penblwydd hapus arbennig iawn i Lisa Williams Ffordd Gerlan. 'Roedd Lisa yn cael pen-blwydd arbennig yn ddiweddar a chafodd gyfle i ddathlu efo Gwion a'r plant a phenwythnos i ffwrdd yn "glampio". Gobeithio i ti fwynhau Lisa.

Penblwydd hapus iawn i Len Williams, Tŷ Canol, Stryd Fer ar ei benblwydd yn 70. Gobeithio dy fod wedi cael gwneud rhywbeth arbennig i ddathlu'r garreg filltir Len.

Penblwydd hapus iawn i Dewi Griffith, Ciltrefnus ar ei benblwydd arbennig yn 70. Gobeithio dy fod wedi mwynhau'r fordaith a gwyliau arbennig i ddathlu. Cofion arbennig atat

Penblwydd hapus iawn i Joan Edwards, Glanrafon yn 85 oed. Mae'r teulu i gyd yn cofio ati.

Graddio

Llongyfarchiadau i Michele Gould, 12 Gwernydd, ar ennill Gradd BSc gydag Anrhydedd ym Mhrifysgol Caer.



Michele yn derbyn y radd mewn seremoni yn Eglwys Gadeiriol Caer ym mis Mawrth



Steddfod yr Urdd

Dwi'n siŵr bod sawl un wedi cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd eleni ond un sydd wedi dod yn 3ydd yn y gystadleuaeth Tecstilau Creadigol Blwyddyn 5 a 6 ydi Margiad Morris, Tan Garth. Dim dyma'r tro cyntaf i un o'r teulu creadigol yma ennill yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ac mae'n amlwg bod Marged yn dilyn yn agos yn ôl troed ei mham a'i nain. Dyma'r gwaith ffeltio ar y thema "Môr a Mynydd" y bu i Margiad ei greu. Llongyfarchiadau mawr iti Margiad – mae'r teulu'n falch iawn ohonot.

Chwaraeon



Pencampwyr Cymru!

Cafodd Tîm Pêl-droed Ysgolion Gwynedd glamp o fuddugoliaeth yng Nghaerdydd yn ddiweddar, yn Ffinals "Tarian Tom Yomen". Mae hon yn gystadleuaeth gyffrous, wrth i Siroedd Cymru frwydro am gael bod yn bencampwyr trwy'r wlad.

Ddechrau'r tymor, roedd Gruffudd Beech o Ysgol Llanllechid, ynghyd â Max Williams a Tomi Hughes o Ysgol Penybryn, wedi llwyddo i sicrhau eu lle yn Nhîm Pêl-droed Ysgolion Gwynedd. Bu gemau ffyrnig ar draws y gogledd drwy'r tymor, a llwyddodd Gwynedd a Sir y Fflint i gyrraedd y Rownd Derfynol yng Nghaerdydd ar ddiwrnod olaf Ebrill.

Ar ôl chwarae'n gryf, goliau gwych, ac ennill yn erbyn timau Caerffili ac Abertawe, roedd pawb wedi gwirioni eu bod




wedi cyrraedd y ffinal yn erbyn Afan-Nedd. Roedd hi'n gêm llawn cynnwrf, a chalonnau'r rhieni yn eu gyddfau! A dyna wefr oedd clywed y chwiban olaf, a'r bechgyn yn rhedeg at ei



gilydd gan wybod mai nhw oedd Pencampwyr Cymru! Roedd wynebâu'r chwaraewyr yn disgleirio, a'r rhieni a'r hyfforddwyr hefyd wrth eu boddau! Dyma'r tro cyntaf i Wynedd gyrraedd y brig

yn y gystadleuaeth, sy'n bodoli ers 1954, felly roedd yn dipyn o fuddugoliaeth i'r hogiau! Da iawn! Hoffai Gruff, Max, Tomi a'u rheini ddiolch i'r hyfforddwyr am brofiad bythgofiadwy.

C R O E S A I R



AR DRAWS

- 1 Poen wrth wrando, ond nid ar y grŵp gwerin yma o ddechrau'r 2000au (5)
- 3 Do, yn rhyfedd syrthio yng nghanol dyffryn Idwal (5)
- 6 Gweld haelioni'r cymorth i droi'r tir yn y cwrdd trefnus (11)
- 8 Nid yw ar lafar, a nid yw'n llenyddol iawn (4)
- 11 "Duw biau - - - bywyd, A'r hawl i fesur ei hyd" (hen gwpled) (4)
- 13 Bron iawn yn hanner heffer ifanc (5)
- 14 Medrir ei wneud i'r awyr neu lo mân neu mewn melin (4)
- 16 Coch yw'r llygaid am mai deigryn yn gadael ei ôl yw (4)
- 19 WBA neu QPR (3,8)
- 20 Arweinydd chwyldro Rwsia 1917 (5)
- 21 Fel cig na ellir yn hawdd ei gnoi (5)

I LAWR

- 1 Parsel bychan (5)
- 2 Gŵr di-liw gan mwyaf yw'r un fedr fanteisio ar hwn (5)
- 4 Morgrug neu wenyn yn dangos i ddiogyn sut i weithio (5)
- 5 Dim dal dig nac atgasedd, mae hyn yn llawer gwell (5)
- 7 Da i lawn ddigolledu'n ariannol am niwed neu golled (7)
- 9 Mae wedi cyrraedd (3)
- 10 Gweld y pumed o'r naw uwchben ar y pumed o'r saith i lawr yma (3)
- 11 "Cwsg, fy mhlentyn, heb dy fami, Cwsg yn - - - Duw" (EW) (3)
- 12 Yn fedrus a galluog i weithredu (3)
- 14 Swnio fel ffrind Elwyn bach, yn chwilio am aur neu arian efallai (5)
- 15 Y sitrws melyn sur (5)
- 17 Wedi i heddiw ddarfod, ond nid yw byth yn cyrraedd (5)
- 18 Rhaid i ni din-droi a loetran i wneud synnwyr o'r enw od (5)

ATEBION CROESAIR MAI 2022

AR DRAWS 2 Gloddest, 7 Braw, 8 Ogwr, 9 Eleri, 10 Ornest, 11 Ysbyty, 12 Nod, 14 Plygu, 16 Llonydd, 18 Rhad, 21 Ysbryd, 23 Llwynog, 24 Oerni, 25 Elwa, 26 Adyn, 27 Neithiwr
 I LAWR 1 Urddasol, 2 Gwely, 3 Offeryn, 4 Erioed, 5 Topnado, 6 Cwest, 13 Ola, 15 Gwantan, 17 Ymyrryd, 18 Rhagori, 19 Dyfrgi, 20 Dwyno, 22 Bai Ar

Dim ond dau wall a gafwyd y tro yma, sef 'gwanwan' yn lle 'gwantan' (15 I Lawr) ac 'Asyn' yn lle'r ateb cywir 'Adyn' (26 Ar Draws).

Gan y canlynol y cafwyd atebion hollol gywir:

M. A. Jones, Rachub; Barbara Jones, Talybont; Doris Shaw, Bangor; Iona Williams, Llanddulas; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Dilys Parry, Rhiwlas; Elizabeth Buckley, Rosemary Williams, Gareth Oliver, Dulcie Roberts, Tregarth; Rita Bullock, Gaynor Elis-Williams, Bethesda; Gill King, Mynydd Llandygai; Dilys Wyn Griffith, Abergele; Gwenda Roberts, Rhosmeirch.

Mae'r llongyfarchiadau y tro yma am fod y cyntaf allan o'r het am y wobr yn mynd i Iona Williams, Tegfan, Ffordd Newydd, Llanddulas, Abergele, LL22 8EL. Da iawn chi.

Atebion erbyn 1af Gorffennaf, 2022 fan bellaf i 'Croesair Mehefin', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD

STEPHEN JONES TREFNWR ANGLADDAU CYF

PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS

BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
 Ebst: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com

HYWEL WILLIAMS

AELOD SENEDDOL DROS ARFON

CYSYLLTWCH:

01286 672076

70 Stryd Fawr, Bangor

hywel.williams.mp@parliament.uk

YMA I BOBOL DYFFRYN OGWEN AC ARFON